



Ymateb i'r cyfnod adborth



@LIC_Addysg



Facebook/AddysgCymru

OGL

ISBN digidol 978 1 80038 058 5
© Hawlfraint y Goron 2020
WG39992

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Ffynonellau adborth.....	3
Newidiadau cyffredin	6
Cynllun newydd: Llywio a mynediad hwylus	6
Yr hyn sy'n bwysig.....	7
Cynllunio eich cwricwlwm.....	9
Cynnydd	11
Sgiliau cyfannol ('Sgiliau ehangach' yn flaenorol)	13
Addysg cydberthynas a rhywioldeb.....	13
Gyrfaoedd ac addysg gysylltiedig â byd gwaith.....	14
Addysg hawliau dynol ac amrywiaeth.....	15
Cyd-destun Cymru a chyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol ('Y dimensiwn Cymreig a phersbectifau rhyngwladol' yn flaenorol)	16
Diben asesu, gan gynnwys y terminoleg asesuadau Ffurfiannol a Chrynodol.....	17
Y berthynas rhwng y cwricwlwm, cynnydd ac asesu	18
Lefel y manylder a gynhwysir yn y cynigion asesu a'r posibilrwydd y ceir anghysondeb rhwng ysgolion	19
Sut y bydd y trefniadau asesu yn cefnogi'r amrywiaeth lawn o ddysgwyr, gan gynnwys y rheini yn y blynyddoedd cynnar a'r rheini ag anghenion dysgu ychwanegol	19
Mwy o eglurder ynghylch y gydberthynas rhwng asesu ac atebolrwydd	20
Y pwyslais a roddir ar ddiben a rôl e-bortffolios.....	21
Sgiliau trawsgwricwlaidd a fframweithiau ategol	21
Adborth gan ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen	23
Y Celfyddydau Mynegiannol	25
Iechyd a lles	26
Y Dyniaethau	28
Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu	30
Mathemateg a Rhifedd	33
Gwyddoniaeth a Thechnoleg	34
Ar Drywydd Dysgu	37
Amser, adnoddau a chymorth i roi'r cwricwlwm newydd ar waith yn llwyddiannus	40
Helpu i'w gyflwyno (astudiaethau achos, deunyddiau, rhwydweithiau)	40
Pwysigrwydd hanfodol dysgu proffesiynol.....	40
Atebolrwydd	43
Pryderon o ran cyfnodau pontio	44

Cyflwyniad

Ffynonellau adborth

Yn ystod y cyfnod adborth, gwnaethom ystyried adborth o amrywiaeth o ffynonellau.

- Adborth a gafwyd yn ystod y cyfnod adborth.
- Adolygiadau mewnol a gynhaliwyd gan grwpiau Gwella Ansawdd (GA) (ymarferwyr GA a oedd yn Arloeswyr cyn hynny).
- Canfyddiadau ysgolion arloesi.
- Gwaith a gomisiynwyd ar elfen blynyddoedd cynnar canllawiau'r cwricwlwm newydd, y nodwyd yn flaenorol y dylid rhoi blaenoriaeth allweddol iddi.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru sefydliad ymchwil annibynnol Wavehill i gynnal dadansoddiad o'r adborth hwn er mwyn:

- deall a mapio'r amrywiaeth o safbwyntiau ac agweddau a oedd gan ymatebwyr tuag at Cwricwlwm i Gymru 2022
- asesu amlygrwydd safbwyntiau ac agweddau penodol ymhlith gwahanol grwpiau o randdeiliaid ac yn gyffredinol.

Yr adborth a gafwyd

Dadansoddodd Wavehill adborth o amrywiaeth o ffynonellau. Yn ogystal ag adroddiad Wavehill, cynhaliodd swyddogion archwiliad o'r adborth, gan edrych ar nifer mawr o ymatebion penodol yn fanylach. Detholwyd yr ymatebion penodol hyn ar y sail ganlynol.

- Sefydliadau sector cyhoeddus allweddol.
- Sefydliadau cynrychioliadol allweddol.
- Sefydliadau cenedlaethol neu ranbarthol allweddol â diddordeb penodol mewn addysg.
- Sefydliadau ac unigolion ag arbenigedd neu ddiddordeb penodol mewn thema drawsbynciol (e.e. y dimensiwn Cymreig, addysg cydberthynas a rhywioldeb, cynwysoldeb).
- Hapsampl o unigolion a thimau gwella ysgolion awdurdodau lleol.

Gwnaethom drefnu hefyd i ystyried safbwyntiau plant a phobl ifanc yn benodol.

Adolygiad gwella ansawdd gydag ymarferwyr

Yn ystod tymor yr haf 2019, gofynnwyd i aelodau GA adolygu pob maes dysgu a phrofiad [Maes/Meysydd]. Cynhaliwyd y gwaith hwn drwy lwybrau ymholi penodol mewn grwpiau cymysg, yn deillio o bob Maes unigol. Datblygwyd y llwybrau ymholi o adborth cynnar gan grwpiau arbenigol, ymchwilwyr o brosiect Camau (cydweithrediad rhwng Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Glasgow i ystyried cynnydd dysgwyr), Llywodraeth Cymru ac arweinwyr consortia rhanbarthol.

Ysgolion arloesi

Er mwyn ateb rhai o'r cwestiynau allweddol ynghylch hydrinedd, hygrychedd a fframwaith y cwricwlwm ar gyfer helpu ysgolion i gynllunio, dewiswyd 16 o ysgolion arloesi o bob un o'r pedwar rhanbarth a chan gynrychioli gwahanol fathau o ysgolion. Dewiswyd yr ysgolion hyn o blith rhwydwaith presennol ysgolion arloesi'r cwricwlwm. Yn ystod y broses o gybllunio'r cwricwlwm, aeth unigolion o ysgolion arloesi ati i brofi elfennau o'r cwricwlwm. Fodd bynnag, mae ysgolion arloesi yn ystyried cynnwys yr ysgol gyfan.

Darperir cyllid i ysgolion arloesi er mwyn iddynt allu integreiddio'r Cwricwlwm drafft i Gymru yn llawn fel y prif ddull o gyflwyno'r cwricwlwm yn y cyfnodau/grwpiau blwyddyn a nodwyd. Bydd hyn yn helpu i werthuso fframwaith llawn y cwricwlwm (canllawiau cyffredin, datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, egwyddorion cynnydd, disgrifiadau dysgu a'r adrannau 'Cynllunio eich cwricwlwm') a datblygu modelau ar gyfer trefniadau asesu ar lefel ysgolion.

Roedd yn ofynnol i ysgolion roi adborth ar eu canfyddiadau a chydweithio i ddatblygu canllawiau i bob ysgol.

Datblygiad plant yn ystod y blynyddoedd cynnar

Ar ôl dadansoddi'r canllawiau ar gyfer y cwricwlwm, gwnaethom gomisiynu grŵp datblygiad plant i adolygu priodolrwydd datblygiadol Camau cynnydd 1 a 2. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys arbenigedd o'r Cyfnod Sylfaen a chynrychiolwyr o ysgolion, lleoliadau nas cynhelir, Estyn, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Roedd yn cynnwys cynrychiolwyr o ysgolion arloesi ac o ysgolion nad ydynt yn ysgolion arloesi, ac ymarferwyr a gymerodd ran yn adolygiad y Cyfnod Sylfaen o'r Meysydd yn ystod hydref 2018.

Crynodeb o'r gwaith a wnaed yn ystod yr hydref

Yn ystod tymor yr hydref, gweithiodd ymarferwyr GA yn unol â'r cerrig milltir isod, er mwyn cwblhau fersiwn wedi'i mireinio o ganllawiau Cwricwlwm i Gymru.

Roedd y cerrig milltir hyn yn seiliedig ar weithdai Gwella Ansawdd.

10–12 Medi	<ul style="list-style-type: none">• Adolygu'r materion allweddol sy'n dod i'r amlwg o'r cyfnod adborth a chytuno ar ymatebion i faterion.• Creu cynllun ar gyfer mireinio materion yn ystod tymor yr hydref.
1–3 Hydref	<ul style="list-style-type: none">• Drafftio unrhyw waith mireinio (gan rannu amser yr ymarferwyr rhwng Meysydd a ffrydiau gwaith trawsbynciol, gan gynnwys asesu).
15–17 Hydref	<ul style="list-style-type: none">• Drafftio unrhyw waith mireinio (gan rannu amser yr ymarferwyr rhwng Meysydd a ffrydiau gwaith trawsbynciol, gan gynnwys asesu).
12–14 Tachwedd	<ul style="list-style-type: none">• Ystyried cyngor gan y Grŵp Arbenigol ar y Cwricwlwm ac Asesu a chynnal gwaith mireinio pellach os bydd angen.• Adolygu'r canllawiau yn y grwpiau Maes a ffrydiau gwaith eraill.

Gwnaethom sefydlu grŵp gweithredol wythnosol a bwrdd prosiect misol yn Llywodraeth Cymru i drefnu a monitro'r gwaith mireinio.

Newidiadau cyffredin

Cynllun newydd: Llywio a mynediad hwylus

Themâu allweddol

Roedd pryderon ynghylch hygyrchedd y canllawiau, yn arbennig y gallu i gael gafael arnynt yn hwylus a'r iaith a ddefnyddiwyd. Roedd llawer o wybodaeth yn cael ei chyflwyno i'r darllenwyr heb iddynt allu cyfeiriadu eu hunain na deall diben pob elfen yn llawn. Roedd yn amlwg bod strwythur y canllawiau yn ddrwslyd.

Holwyd am y ffordd y cyflwynwyd y deilliannau cyflawniad hefyd: roedd yn anodd cymharu camau cynnydd er mwyn deall cynnydd.

Roedd gwybodaeth yn aml yn cael ei hailadrodd yn yr elfennau cyffredin a'r elfennau ar gyfer Meysydd penodol, ac nid oedd y gwahaniaeth rhwng yr adran 'Dysgu' a'r adran 'Cynllunio ar gyfer dysgu' yn glir.

Roedd pryder hefyd fod darparu chwe dogfen unigol ar gyfer y Meysydd unigol yn annog dull gweithredu ar sail Meysydd ac yn lleihau ymdrechion cynllunio trawsgwricwlaidd.

Yr hyn a newidiwyd gennym

Rydym wedi symleiddio strwythur y canllawiau drwy eu trefnu gan ddefnyddio'r elfennau allweddol canlynol.

Ar gyfer y canllawiau cyffredin:

- cyflwyniad
- cynigion ar gyfer deddfwriaeth
- canllawiau ar gynllunio cwricwlwm.

Ar gyfer pob Maes:

- cyflwyniad i'r Maes
- y dysgu 'craidd': datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, y dysgu yn erbyn pob cam cynnydd, ac egwyddorion cynnydd
- ystyriaethau penodol ar gyfer y Maes wrth gynllunio cwricwlwm.

Dyluniwyd hyn er mwyn sicrhau bod y canllawiau yn haws i'w dilyn a hefyd er mwyn osgoi achosion o ddyblygu gwybodaeth. Byddwn hefyd yn datblygu diagramau er mwyn helpu ymarferwyr i ddeall gwahanol elfennau'r canllawiau a sut y bwriedir iddynt gael eu defnyddio.

O ran cyflwyniad, ni chaiff y fersiwn o'r canllawiau y gellir ei lawrlwytho ei chyflwyno fesul Maes unigol. Mae'r manylion ychwanegol yn y canllawiau cyffredin yn ddeunydd darllen hanfodol i bob ymarferydd. Drwy wahanu'r Meysydd, roedd perygl y byddai ymarferwyr yn methu'r wybodaeth gyffredin bwysig. Gwneir hynny hefyd er mwyn annog dysgu a dulliau gweithredu ar draws y Meysydd.

Cyflwynir y dysgu ym mhob cam cynnydd ar ffurf lorweddol: er mwyn i ymarferwyr allu gweld y llinynnau cynnydd ym mhob rhan o'r continwmm dysgu.

Yr hyn sy'n bwysig

Themâu allweddol

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno bod y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn crynhoi'r blaenoriaethau ar gyfer dysgu plant a phobl ifanc. Roedd hefyd yn amlwg bod plant a phobl ifanc weithiau yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu'n llawn â nhw.

Bwriedir i'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig weithredu fel strwythur trefnu allweddol y canllawiau ar gyfer pob Maes. Fe'u dyluniwyd i grynhoi'r 'syniadau mawr' neu egwyddorion allweddol pob Maes. Fel y cyfryw, maent yn darparu'r sylfaen ar gyfer y dysgu a ddisgrifir ym mhob cam cynnydd.

Yr hyn a newidiwyd gennym

Yn ystod yr hydref, yn seiliedig ar adborth, nododd ymarferwyr GA ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig yr oedd angen eu hailddrafftio. Gofynnodd yr ymarferwyr GA am adborth arbenigol ar y datganiadau hyn, gan ddatblygu geiriad amgen a chytuno arno. Newidiwyd y testun pennawd a'r testun esboniadol, sy'n cynnwys y datganiad llawn, fel y bo'n briodol.

Lle y bo'n briodol, mireiniwyd geiriad penawdau'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig er mwyn sicrhau eu bod yn fwy hygyrch. O ystyried yr adborth gan blant a phobl ifanc, cytunwyd y dylai'r datganiadau fod yn gyffredinol hygyrch i ddysgwyr ar Gam cynnydd 3. Nid ystyriwyd ei bod yn realistig disgwyl i ddysgwyr ddeall y gyfres lawn o ddatganiadau cyn hynny, ond bwriedir o hyd i ddysgwyr ymgysylltu â hanfod y datganiadau. Rydym hefyd wedi cyhoeddi fersiynau hygyrch yn benodol i blant a phobl ifanc er mwyn helpu dysgwyr i ymgysylltu â nhw.

Mewn ymateb i bryderon am degwch ac ehangder profiadau dysgwyr, cynigir bellach y bydd y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn orfodol. O ganlyniad, bydd yn ofynnol i gwricwlwm ysgol gwmpasu'r holl ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig rhwng 3 ac 16 oed, gan ymgysylltu â'u cysyniadau allweddol mewn modd datblygiadol briodol.

Disgrifiadau dysgu (yn lle deilliannau cyflawniad)

Themâu allweddol

Cadarnhaodd adolygiad o'r deilliannau cyflawniad nifer o faterion mewn perthynas â'u cynnwys, eu ffocws a chanfyddiadau ymarferwyr ohonynt. Tynnodd yr adolygiad sylw at y canlynol.

- Nid oedd y gwahaniaeth rhwng yr adran deilliannau cyflawniad a'r adran 'Cynllunio ar gyfer dysgu' yn fersiwn drafft mis Ebrill 2019 yn glir: roedd y ddwy agwedd yn cyfleu'r dysgu yn ystod pob cam cynnydd.
- Anghysondebau o ran lefel y manylder a oedd yn cael ei mynegi rhwng yr adran deilliannau cyflawniad a'r adran 'Cynllunio ar gyfer dysgu'.
- Roedd cwmpas llawer o'r deilliannau cyflawniad yn rhy gul i ddarparu'r sail ar gyfer cynllunio'r dysgu am gyfnod o tua dwy neu dair blynedd.
- Roedd nifer o'r deilliannau cyflawniad yn mynegi tasgau a gweithgareddau cul, yn hytrach na'r dysgu y bwriadwyd i'r tasgau a'r gweithgareddau gyfrannu ato. O ganlyniad, gellid ymdrin â rhai mewn nifer bach o wersi a'u hasesu mewn ffordd gul dros gyfnod byr o amser.
- Nid oedd yr enw 'deilliannau cyflawniad' yn ddefnyddiol: roedd yn awgrymu bwriad tuag at dargedau cyrhaeddiad crynodol, a oedd yn arwain at ddeilliannau cul y gellid eu hasesu'n uniongyrchol.
- Roedd rhai deilliannau cyflawniad penodol yn annelwig ac yn aneglur.
- Nid oedd y deilliannau cyflawniad yn cynnig digon o eglurder o ran dysgu sy'n ymwneud â disgyblaethau penodol.

Bwriadwyd i'r deilliannau cyflawniad ddarparu canllawiau ar y ffordd y dylai dysgwyr wneud cynnydd o fewn pob datganiad o'r hyn sy'n bwysig ar eu taith ar hyd y continwrm dysgu. Roedd y dysgu hwn wedi'i drefnu'n bum cam cynnydd sy'n cynnig pwyntiau cyfeirio ar gyfer cyflymder y cynnydd hwnnw. Roedd y disgygliadau hyn wedi'u mynegi o safbwynt y dysgwr ac wedi'u fframio'n eang fel bod modd iddynt gynnal y dysgu dros gyfres o flynyddoedd. Ni fwriadwyd iddynt fod yn dasgau, yn weithgareddau nac yn feini prawf asesu annibynnol. Yn hytrach, bwriadwyd iddynt helpu ysgolion i ddatblygu eu cwricwlwm eu hunain, wedi'i ategu gan eu tasgau a'u gweithgareddau asesu eu hunain.

Yr hyn a newidiwyd gennym

Er mwyn helpu ymarferwyr i ddeall, rydym wedi ailenwi'r deilliannau cyflawniad yn ddisgrifiadau dysgu: er mwyn egluro mai pwyntiau cyfeirio ydynt yn hytrach na deilliannau crynodol.

Gwnaethom ddatblygu methodoleg ar gyfer y disgrifiadau dysgu gan nodi manyleb a oedd yn darparu sail glir a chysyniadol i gefnogi gwaith mireinio'r ymarferwyr GA, sef y dylai disgrifiadau dysgu:

- disgrifio **hanfod y dysgu** neu'r dysgu ystyrion allweddol a ddylai fod yn sail i bynciau, gweithgareddau neu dasgau, yn hytrach na'r pethau hynny eu hunain, y gellir arfer barn broffesiynol mewn perthynas â nhw
- bod yn eang eu cwmpas, heb fod yn rhwym wrth gyd-destunau penodol
- mynegi'r cysyniadau, y syniadau a'r ymholiadau craidd o fewn disgyblaeth (neu Faes)
- cyfeirio at craidd y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig mewn pwnc (neu Faes)
- dychwelyd yn naturiol, gan greu cyfleoedd i'w trosglwyddo i sefyllfaoedd a phynciau eraill; a goresgyn pynciau unigol, cul
- ysgogi ymdrechion i feddwl yn ddwys, trafod, ymholi, meithrin dealltwriaeth newydd a gofyn cwestiynau newydd
- sbarduno cysylltiadau ystyrion â dysgu blaenorol a phrofiadau personol
- peidio â phennu tasgau penodol y gellir eu hasesu'n uniongyrchol
- bod yn glir sut y gellir datblygu dysgu yn seiliedig arnynt – ni ddylent fod yn annelwig nac yn amhendant o ran y dysgu a fynegir.

Bu'r cysyniad 'hanfod y dysgu' yn ganllaw pwysig yn ystod y cam datblygu hwn. Cynhaliwyd gwaith adolygu a mireinio sylweddol mewn perthynas â'r disgrifiadau dysgu yn ystod yr hydref er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r meini prawf hyn. Fel rhan o'r broses, aeth ymarferwyr GA ati hefyd i adolygu'r dysgu a nodwyd yn yr adrannau 'Cynllunio ar gyfer dysgu' er mwyn ystyried a ddylid cynnwys elfennau yn y disgrifiadau dysgu.

Cynllunio eich cwricwlwm

Themâu allweddol

Tynnodd yr adolygiad cyffredinol o ganllawiau drafft mis Ebrill sylw at nifer o faterion o ran cyflwyno'r Meysydd a'r rhyngberthnasau rhwng yr amrywiol adrannau, yn enwedig yr adran 'Cynllunio ar gyfer dysgu'. Tynnodd yr adolygiad sylw at y canlynol.

- Cafwyd cais cadarn am ganllawiau cliriach ar y ffordd y dylai ysgolion fwrw ati i gynllunio'r cwricwlwm, a sut y dylent ddefnyddio'r canllawiau ar y cwricwlwm.
- Nid oedd digon o eglurder o ran pwysigrwydd cymharol a diben yr adran 'Dysgu' a'r adran 'Cynllunio ar gyfer dysgu' ym mhob Maes a'r gydberthynas rhyngddynt.
- Ystyriwyd bod y broses o we-lywio rhwng y tab 'Dysgu' a'r tab 'Cynllunio ar gyfer dysgu' yn feichus.
- Yn aml, nid oedd gwahaniaeth amlwg i'w weld rhwng y ddwy adran, ond pan oedd gwahaniaeth i'w weld, roedd 'Cynllunio ar gyfer dysgu' yn aml yn mynegi tasgau a gweithgareddau cul neu gynnwys pynciol cul yn ystod pob cam cynnydd (a oedd fel petai'n pennu cyfeiriad pendant i ymarferwyr ac yn cyfyngu ar hyblygrwydd).

- Roedd achosion di-fudd o ailadrodd gwybodaeth ar draws y camau cynnydd yn 'Cynllunio ar gyfer dysgu' a thynnwyd sylw at hygyrchedd, gan fod y fersiwn ddrafft yn cyflwyno nifer o ystyriaethau i ymarferwyr mewn gwahanol fannau, gyda llawer o'r wybodaeth yn cael ei hailadrodd mewn gwahanol adrannau.

Yn y bôn, roedd yr ymatebion yn awgrymu bod diffyg eglurder diben yn y canllawiau: boed wedi'u bwriadu fel y cwricwlwm cenedlaethol neu fel canllawiau i bob ysgol ddatblygu ei chwricwlwm ei hun. Roedd rhannau helaeth o'r drafft yn awgrymu mai canllawiau ategol ydoedd, ond roedd natur llawer o'r deilliannau cyflawniad a rhannau helaeth o'r 'Cynllunio ar gyfer dysgu' yn nodweddiadol o gwricwlwm cenedlaethol.

Yr hyn a newidiwyd gennym

Rydym wedi nodi diben y canllawiau mewn ffordd lawer mwy amlwg: sef helpu ysgolion ac ymarferwyr drwy ddarparu fframwaith ar gyfer cynllunio eu cwricwlwm eu hunain, gyda threfniadau asesu yn rhan annatod o hyn, yn hytrach na darparu cwricwlwm cenedlaethol ar eu cyfer. Drwy wneud hynny, rydym wedi crynhoi'r canllawiau i ysgolion ac ymarferwyr ar gynllunio cwricwlwm mewn adrannau llawer mwy penodol.

Cyflwynwyd adran newydd, 'Cynllunio eich cwricwlwm', i bob ymarferydd, ac fe'i hategir gan wybodaeth ar gyfer Meysydd penodol fel y bo angen. Rydym wedi osgoi achosion diangen o ailadrodd: lle bydd gwybodaeth yn berthnasol i bob Maes, dim ond yn yr adran gyffredin y caiff ei chynnwys ac nid yn yr adran ar gyfer y Maes penodol.

Nod yr adrannau 'Cynllunio eich cwricwlwm' cyffredin a'r adrannau cyfatebol ar gyfer Meysydd penodol yw helpu ysgolion ac ymarferwyr i wneud:

- ddatblygu gweledigaeth ar gyfer eu cwricwlwm
- datblygu a cynllunio eu cwricwlwm drwy ddarparu cyd-destunau ac elfennau i'w hystyried
- ystyried rhoi'r cwricwlwm ar waith gan ddefnyddio amrywiaeth o gyd-destunau a phynciau er mwyn annog dysgwyr i ymgysylltu â hanfod dyfnach dysgu

Fel rhan o'r gwaith mireinio, ystyriodd ymarferwyr GA gynnwys adrannau 'Cynllunio ar gyfer dysgu' drafft mis Ebrill 2019, gan symud neu ailddatblygu gwybodaeth fel y bo'n briodol.

- Lle roedd y dysgu'n adlewyrchu'r disgrifiadau dysgu neu'n gorgyffwrdd â nhw (yn wir, mewn rhai achosion, roedd yn mynegi hanfod y dysgu'n well na'r deilliannau cyflawniad drafft), fe'i defnyddiwyd yn y disgrifiadau dysgu.
- Lle roedd y dysgu'n mynegi egwyddorion i helpu i ddewis cynnwys pynciol, fe'i defnyddiwyd yn yr adran 'Cynllunio eich cwricwlwm'.

- Lle roedd y dysgu'n mynegi cynnwys pynciol penodol neu gul, fe'i dilëwyd, a chynhwyswyd yr egwyddor a oedd yn sail i'r cynnwys hwn yn yr adran 'Cynllunio eich cwricwlwm'.

Dim ond ystyriaethau sy'n unigryw i bob Maes a gynhwysir yn yr adrannau 'Cynllunio eich cwricwlwm' ar gyfer y Maes penodol. Felly, mae'n hanfodol bod ysgolion ac ymarferwyr yn ystyried manylion y canllawiau cyffredin yn gyntaf, a hynny ar y cyd ag unrhyw waith datblygu ar gyfer Maes penodol. Wrth ddatblygu adrannau'r Meysydd, ystyriodd ymarferwyr y fethodoleg ganlynol.

- Sut mae datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a disgrifiadau dysgu yn helpu ymarferwyr i gynllunio cwricwlwm?
- Beth yw'r gydberthynas rhwng y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig?
- Sut mae sicrhau ehangder a dyfnder yn y Maes?
- Beth yw'r cyd-destunau a'r cysyniadau disgyblaethol allweddol yn y Maes y dylid eu defnyddio wrth ystyried y disgrifiadau dysgu?
- Pa ystyriaethau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol sy'n unigryw i'r Maes?
- Pa ystyriaethau pellach sy'n unigryw i'r Maes?

Felly, ar y cyfan, yn ogystal â darparu canllawiau newydd pwysig ar gyfer cynllunio cwricwlwm, mae'r adrannau 'Cynllunio eich cwricwlwm' hefyd yn cefnogi'r system gyfan er mwyn deall ystyr cynllunio cwricwlwm a'r gofynion dysgu proffesiynol sy'n deillio o hynny.

Cynnydd

Themâu allweddol

Roedd pryder, er bod y deilliannau cyflawniad yn seiliedig ar ddull gweithredu seiliedig ar dystiolaeth mewn perthynas â chynnydd a'u bod yn mynegi sut y dylai dysgwyr wneud cynnydd ar hyd y continwmm dysgu, eu bod yn rhy fanwl i ddarparu ymdeimlad ehangach cyffredinol o'r egwyddorion cynnydd ar gyfer pob Maes.

O ystyried y pryderon o ran sicrhau tegwch a disgwyliadau cyffredin i ddysgwyr ledled Cymru, teimlwyd y gellid mynd i'r afael â hyn drwy osod dyletswydd statudol ar ysgolion i gynllunio cwricwlwm sy'n sicrhau bod dysgwyr yn gwneud cynnydd. Ni ellid cysylltu'r ddyletswydd hon â'r disgrifiadau dysgu, trwy eu gwneud yn orfodol, gan y byddai'n gallu effeithio'n negyddol ar y defnydd a wneid ohonynt.

Yn ogystal, rhoddwyd canllawiau ar gynnydd yn fersiwn ddrafft mis Ebrill 2019 yn rhannol yn naratifau rhagarweiniol y Meysydd, a hefyd ochr yn ochr â phob datganiad o'r hyn sy'n bwysig. Roedd hyn yn ei gwneud yn fwy tebygol y câi'r adrannau hyn eu hystyried ar eu pen eu hunain.

Yr hyn a newidiwyd gennym

Rydym wedi cyflwyno egwyddorion cynnydd er mwyn ymateb i'r materion hyn. Bydd yr egwyddorion hyn yn orfodol er mwyn helpu i sicrhau tegwch a disgwyliadau cyffredin ledled Cymru.

Nod yr egwyddorion cynnydd hyn yw:

- mynegi natur ehangach cynnydd o fewn Maes: ei hanfod a natur cynnydd o fewn Maes
- helpu gweithwyr proffesiynol i gynnwys cynnydd wrth gynllunio eu cwricwlwm, gan gynnwys eu trefniadau asesu
- helpu'r proffesiwn i ddeall natur cynnydd ym mhob rhan o'r cwricwlwm
- mynegi unrhyw ddyletswydd ar ysgolion i sicrhau bod dysgwyr yn gwneud cynnydd
- darparu disgwyliad cyffredin ynghylch natur cynnydd er mwyn osgoi lefelau anfwriadol o amrywiad rhwng ysgolion ac effeithiau negyddol posibl ar ddeilliannau rhai dysgwyr.

Mae'r canllawiau bellach yn nodi egwyddorion cynnydd ar gyfer y cwricwlwm cyfan ac ar gyfer pob Maes unigol.

Mae'r egwyddorion cynnydd cyffredin yn:

- cydnabod y nodweddion cyffredin rhwng rhai modelau cynnydd penodol ar draws y Meysydd
- ystyried cynnydd i bob dysgwr gan gynnwys dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ar draws y cwricwlwm cyfan.

Mae'r egwyddorion ar gyfer pob Maes yn:

- nodi ac ymhelaethu ar y modelau a'r egwyddorion cynnydd a fynegwyd yn flaenorol ym mhob Maes drafft
- esbonio eu natur yn fanylach a nodi profiadau dysgu hanfodol, yn fwy na'r modelau drafft blaenorol
- rhoi dealltwriaeth i weithwyr proffesiynol o gynnydd ar hyd continwwm dysgu yn hytrach na'i weld fel datganiadau wedi'u hatomeiddio.

O ystyried mai elfen newydd yw'r elfen hon â'n bod yn cynnig statws gorfodol iddi, byddwn yn adolygu'r egwyddorion cynnydd hyn a, lle y bo'n briodol, yn gwneud newidiadau cyn ei gwneud yn ofyniad statudol defnyddio'r cwricwlwm.

Sgiliau cyfannol ('Sgiliau ehangach' yn flaenorol)

Themâu allweddol

Roedd rhywfaint o amheuaeth am y term 'Sgiliau ehangach', gan awgrymu y gellid eu hystyried yn ymylol o bosibl. Mewn gwirionedd, pan aeth yr ymarferwyr GA ati i'w rhesymoli, roedd yn amlwg bod y sgiliau hyn yn hollbwysig i lwyddiant dysgwyr wrth ddysgu ac yn ddiweddarach mewn bywyd a'u bod yn rhan gyfannol o'r pedwar diben.

Yr hyn a newidiwyd gennym

Fe'u hailenwyd yn sgiliau cyfannol. Yn ogystal, mireiniwyd y canllawiau ar gyfer y sgiliau hyn ac fe'u datblygwyd er mwyn darparu cymorth ychwanegol o ran yr hyn y dylai ysgolion ac ymarferwyr anelu at ei gynnwys ym mhob rhan o'u cwricwlwm.

Y camau nesaf

Mae fframweithiau wedi'u cyhoeddi a allai helpu ysgolion i gynnwys sgiliau cyfannol fel rhan o'u cwricwlwm, er enghraifft:

Fframwaith Cymhwysedd Entrepreneuriaeth Ewrop:

<https://ec.europa.eu/social/main.jsp?catId=1317&langId=en>

Cymwyseddau trawsnewidiol y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) ar gyfer 2030: http://www.oecd.org/education/2030-project/teaching-and-learning/learning/transformational-competencies/in_brief_Transformational_Competencies.pdf

Addysg cydberthynas a rhywioldeb

Themâu allweddol

Roedd llawer o'r adborth ar y thema hon yn cyfeirio at ei statws deddfwriaethol, a oedd y tu hwnt i gylch gwaith y broses o fireinio'r canllawiau. Fodd bynnag, roedd yr adborth yn awgrymu y dylid llunio canllawiau manylach gan y bydd addysg cydberthynas a rhywioldeb yn statudol, ac o ystyried natur sensitif ac arbenigol y maes pwnc.

Yr hyn a newidiwyd gennym

Yn ystod yr hydref, gweithiodd grŵp o ymarferwyr i fireinio a gwella'r:

- canllawiau cyffredin a'r diffiniad o addysg cydberthynas a rhywioldeb
- disgrifiadau o'r dysgu sy'n berthnasol i addysg cydberthynas a rhywioldeb – gan sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r dysgu hanfodol yn y thema.

Mae hyn bellach yn cynnwys esboniad mwy cynhwysfawr o addysg cydberthynas a rhywioldeb a'r egwyddorion ar gyfer ei chynnwys yn y cwricwlwm.

Fodd bynnag, mae'n amlwg bod mwy o alw am fanylion ychwanegol yn y maes hwn nag mewn meysydd eraill, ac ni fyddai hynny'n gydnaws â'r manylion yng ngweddill y canllawiau. Byddwn yn datblygu canllawiau statudol atodol ar addysg cydberthynas a rhywioldeb a fydd yn helpu ysgolion i gynllunio darpariaeth sy'n briodol ac yn hygyrch i'w dysgwyr. Felly, nid ydym wedi cynnwys gwybodaeth benodol yn yr adrannau 'Cynllunio eich cwricwlwm' ar gyfer pob Maes, gan yr ymdrinnir â hyn yn y canllawiau dilynol.

Gyrfaoedd ac addysg gysylltiedig â byd gwaith

Themâu allweddol

Roedd y prif themâu a nodwyd yn yr adborth yn seiliedig ar gynnwys y canllawiau a'r trefniadau ar gyfer eu rhoi ar waith gan ymarferwyr. Yn gryno, roedd y rhain yn ymwneud â'r:

- gwelededd ac eglurder cynnwys
- gallu i bob ymarferydd gynnwys a chyflwyno gyrfaoedd ac addysg gysylltiedig â byd gwaith yn llawn ym mhob rhan o'r cwricwlwm
- ymwybyddiaeth myfyrwyr ôl-16 o gyfleoedd a'u hawydd i ymgysylltu.

Yr hyn a newidiwyd gennym

Gwelededd ac eglurder cynnwys

Fel thema drawsgwricwlaidd, mae gyrfaoedd ac addysg gysylltiedig â byd gwaith yn weladwy, a hynny yn y canllawiau cyffredin a'r canllawiau ar gyfer Meysydd unigol ar gyfer cynllunio eich cwricwlwm. Mae'r cynnwys hwn yn cynnig dealltwriaeth glir i gynllunwyr ac ymarferwyr o yrfaoedd ac addysg gysylltiedig â byd gwaith, y buddiannau i ddysgwyr ac eglurder o ran yr angen i gynnwys y thema ym mhob rhan o'r cwricwlwm.

Y gallu i bob ymarferydd gynnwys a chyflwyno gyrfaoedd ac addysg gysylltiedig â byd gwaith yn llawn ym mhob rhan o'r cwricwlwm

Mae cynnwys gyrfaoedd ac addysg gysylltiedig â byd gwaith ym mhob rhan o'r cwricwlwm yn gwneud y thema'n fwy gweladwy ac amlwg, gan dynnu sylw at yr angen i'w chynnwys ar hyd y continwwm dysgu, ym mhob Maes. Mae'r adran 'Cynllunio eich cwricwlwm' bellach yn darparu cyd-destunau i ymarferwyr eu hystyried wrth gyflwyno gyrfaoedd ac addysg gysylltiedig â byd gwaith yn y cwricwlwm.

Cyfleoedd i fyfyrwyr ôl-16 a'u hawydd i ymgysylltu

Mae'r sgiliau a'r wybodaeth a gaiff eu meithrin drwy yrfaeoddedd ac addysg gysylltiedig â byd gwaith yn helpu i wneud penderfyniadau mewn amrywiaeth o leoliadau, ond yn arbennig yng nghyd-destun cyfnodau pontio, cynllunio gyrfaoedd a rheoli. Fel y cyfryw, caiff ei gynnwys yn y disgrifiadau o'r dysgu ym Maes Iechyd a Lles sy'n cyfeirio at wneud penderfyniadau.

Y camau nesaf

Er mwyn helpu cynllunwyr ac ymarferwyr ymhellach i gynnwys gyrfaoedd ac addysg gysylltiedig â byd gwaith yn y cwricwlwm a chynyddu pwysigrwydd gwella ymwybyddiaeth o gyfleoedd ac awydd i ymgysylltu, caiff canllawiau statudol atodol eu datblygu.

Bydd y canllawiau yn cynnwys meysydd y tynnwyd sylw atynt yn yr adborth, gan gynnwys dealltwriaeth o'r rheswm pam mae gyrfaoedd ac addysg gysylltiedig â byd gwaith yn drawsgwricwlaidd, menter, ymwybyddiaeth o gyfleoedd, arweiniad gyrfaoedd, stereoteipio, llwybrau gyrfa, gwybodaeth am y farchnad lafur, profiadau cysylltiedig â byd gwaith a chyfleoedd ôl-16. Bydd astudiaethau achos yn hwyluso dysgu proffesiynol, yn dangos dulliau cyflwyno posibl ac yn cyfeirio at adnoddau a allai fod yn ddefnyddiol.

Addysg hawliau dynol ac amrywiaeth

Themâu allweddol

Lle y cyfeiriwyd ati, roedd cefnogaeth gref o blaid cynnwys addysg hawliau dynol. Wrth drafod â grwpiau rhanddeiliaid, roedd rhywfaint o bryder am bwysigrwydd deall a gwerthfawrogi amrywiaeth: pe byddai ysgol ond yn defnyddio ei hardal leol wrth ddatblygu cwricwlwm, mae'n bosibl na fyddai hynny'n helpu dysgwyr i ddeall natur amrywiol Cymru gyfoes.

Yr hyn a newidiwyd gennym

Atgyfnerthwyd yr adran canllawiau cyffredin ar hawliau dynol a datblygwyd canllawiau ychwanegol mewn perthynas â deall a gwerthfawrogi amrywiaeth. Er mwyn ategu hyn ymhellach, mae'r adrannau ar gynllunio eich cwricwlwm ym mhob Maes yn cyfeirio atynt, lle y bo'n briodol.

Cyd-destun Cymru a chyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol ('Y dimensiwn Cymreig a phersbectifau rhyngwladol' yn flaenorol)

Themâu allweddol

Roedd rhywfaint o amheuaeth a oedd gwahanu'r dimensiwn Cymreig a phersbectifau rhyngwladol yn ddefnyddiol. Awgrymwyd bod persbectifau lleol, persbectifau Cymreig a phersbectifau rhyngwladol yn dylanwadu ar ei gilydd ac yn gysylltiedig â'i gilydd. At hynny, roedd rhywfaint o bryder nad oedd y derminoleg a ddefnyddiwyd yn nodi pwysigrwydd ardaloedd lleol uniongyrchol dysgwyr yn ddigon clir. Roedd pryder hefyd ynghylch amrywiaeth ac a ddylai'r canllawiau bwysleisio pwysigrwydd deall natur amrywiol Cymru gyfoes yn hytrach nag edrych ar Gymru mewn ffordd fwy traddodiadol ac unffurf.

Yr hyn a newidiwyd gennym

Mae'r canllawiau diwygiedig yn nodi'r angen i ddysgwyr o bob oedran ddysgu am eu hardal leol, am Gymru ac am y byd ehangach er mwyn cefnogi eu hymdeimlad o hunaniaeth a lles a chreu cysylltiadau â phobl, lleoedd a hanes yn eu hardal leol, mewn rhannau eraill o Gymru a ledled y byd hefyd.

Mireiniwyd y canllawiau ar gyfer persbectifau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol hefyd er mwyn adlewyrchu adborth a chynnig mwy o arweiniad i ysgolion, gan gynnwys tynnu sylw at bwysigrwydd amrywiaeth a dinasyddiaeth.

Cynigion asesu

Bu'r adborth ar gynigion asesu cychwynnol mis Ebrill 2019 yn amhrisiadwy wrth ein helpu i ystyried y trefniadau asesu ymhellach. Bu'r Grŵp Cynghori ar Asesu yn allweddol i'r broses hon, gan ystyried y sylwadau a gafwyd drwy'r broses ymgynghori a rhoi cyngor ar y newidiadau sydd eu hangen er mwyn mireinio'r canllawiau ar asesu. Roedd aelodau'r grŵp yn cynnwys ymarferwyr o ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig cyfrwng Cymraeg a Saesneg a lleoliadau nas cynhelir a ariennir, yn ogystal ag academyddion a chynrychiolwyr o Gonsortia Rhanbarthol, Estyn a Cymwysterau Cymru, ac felly mae'r grŵp hwn wedi galluogi amrywiaeth eang o bartneriaid i gymryd rhan yn y broses datblygu ar y cyd.

Mae'r canllawiau wedi'u diweddarau sy'n adlewyrchu'r newid diwylliant rydym yn bwriadu ei gyflawni drwy gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn deillio o'r gwaith hwn. Mae'r canllawiau hyn yn helpu ysgolion a lleoliadau wrth iddynt ddechrau ystyried sut y byddant yn cynllunio, yn cynllunio ac yn gweithredu cwricwlwm newydd eu hysgol – ac mae trefniadau asesu yn rhan hanfodol o'r broses hon.

Isod ceir trosolwg o'r themâu allweddol sy'n deillio o'r adborth, ynghyd ag esboniad o'r ffordd rydym wedi diwygio'r canllawiau a pham.

Diben asesu, gan gynnwys y derminoleg asesiadau Ffurfiannol a Chrynodol

Themâu allweddol

Awgrymodd yr adborth nad oeddem wedi bod yn ddigon clir wrth fynegi diben trefniadau asesu a'r gwahanol ddefnydd y gellir ei wneud ohonynt. Roeddem wedi cyfeirio at asesiadau ffurfiannol a chrynodol yn fersiwn ddrafft mis Ebrill 2019, ond roedd y termau hyn, yn ôl pob tebyg, yn creu rhaniad di-fudd ac, felly, nid oeddent yn cyfleu ethos y cwricwlwm newydd o ran hyrwyddo cynnydd ymhlith dysgwyr. Mynegwyd pryderon hefyd o ran a oes dealltwriaeth gyffredin a defnydd cyffredin o'r termau hyn ledled Cymru.

Yr hyn a newidiwyd gennym

Yn y canllawiau diwygiedig, rydym yn disgrifio diben asesu yn glir, sef cefnogi cynnydd pob dysgwr unigol mewn perthynas â'r continwmm rhwng 3 ac 16 oed. Gan ystyried y diben hwn, rydym hefyd yn nodi tair prif rôl i asesu.

- Helpu dysgwyr unigol yn barhaus o ddydd i ddydd.
- Adnabod, nodi a myfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol dros amser.
- Deall cynnydd grŵp er mwyn myfyrio ar arferion.

Yn ogystal, mae'r canllawiau yn nodi y dylai trefniadau asesu nid yn unig ystyried deilliannau dysgu, h.y. yr hyn y mae'r dysgwr wedi'i ddysgu, ond y dylent hefyd ystyried y broses ddysgu, er mwyn deall sut mae'r dysgwr wedi dysgu, a gallu addasu arferion beunyddiol y dysgwr hwnnw yn seiliedig ar y wybodaeth hon.

Cawsom adborth hefyd mewn perthynas â chymwysterau yn y dyfodol a goblygiadau posibl hyn i asesu yng nghyd-destun y Cwricwlwm i Gymru. Mae Cymwysterau Cymru yn ystyried y broses o ddatblygu cymwysterau yn y dyfodol – cânt eu datblygu er mwyn adlewyrchu'r Cwricwlwm i Gymru ac er mwyn helpu i wireddu ei uchelgais. Fel rhan o'r canllawiau diwygiedig, rydym yn nodi'n glir nad yw'r canllawiau yn berthnasol i drefniadau asesu at ddiben dyfarnu cymwysterau allanol.

Y berthynas rhwng y cwricwlwm, cynnydd ac asesu

Themâu allweddol

Dangosodd yr adborth nad oedd y gydberthynas rhwng y cwricwlwm, cynnydd ac asesu wedi cael ei mynegi'n ddigon clir. Ymdriniwyd â hyn yn y canllawiau diwygiedig, y disgrifiadau dysgu a'r egwyddorion cynnydd cenedlaethol, yr esboniwyd y ddwy elfen yn gynharach yn y ddogfen hon.

Yr hyn a newidiwyd gennym

Mae'r canllawiau diwygiedig bellach yn disgrifio asesu'n glir fel proses barhaus sy'n rhan annatod o'r gwaith o gynllunio'r cwricwlwm ac sy'n rhan gwbl gysylltiedig o'r dysgu a'r addysgu. Caiff hyn ei fynegi yn y canllawiau cyffredin, ynghyd ag egwyddorion a diben asesu, er mwyn sicrhau y caiff asesu ei ystyried yn glir fel agwedd allweddol ar y broses o gynllunio'r cwricwlwm yn hytrach na phroses annibynnol.

Wedyn, mae'r canllawiau asesu yn disgrifio sut y bydd angen cynllunio cwricwlwm ysgol er mwyn adlewyrchu'r egwyddorion cynnydd cenedlaethol, wedi'u hategu gan y disgrifiadau dysgu, ac mai yn erbyn cwricwlwm yr ysgol ei hun y dylid asesu cynnydd dysgwyr.

Ceir canllawiau pellach ar yr egwyddorion cynnydd a'r disgrifiadau dysgu yn y Cwricwlwm i Gymru ehangach.

Lefel y manylder a gynhwysir yn y cynigion asesu a'r posibilrwydd y ceir anghysondeb rhwng ysgolion

Themâu allweddol

Er bod llawer o'r ymatebwyr i ddrafft mis Ebrill 2019 o blaid yr hyblygrwydd cynyddol yr oedd y canllawiau asesu yn ei gynnig i ysgolion a lleoliadau, gofynnwyd hefyd am fwy o fanylion o ran y trefniadau asesu y byddai disgwyl i ysgolion eu rhoi ar waith.

Yr hyn a newidiwyd gennym

Yn y canllawiau diwygiedig, nodir yn glir mai mater i ysgolion yw'r trefniadau asesu ac y dylid eu datblygu fel rhan o'u proses ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm. Fodd bynnag, er nad ydym am fod yn rhy ragnodol, darperir canllawiau penodol ar y materion sylfaenol y dylai ysgolion eu hystyried wrth gynllunio eu cwricwlwm a'u trefniadau asesu. Mae'r canllawiau hefyd bellach yn fwy penodol o ran y prosesau allweddol sydd eu hangen i ategu cynnydd effeithiol gan ddysgwyr, gan gynnwys yr angen i gydweithio o fewn y prosesau hyn.

- Sicrhau dealltwriaeth gyffredin o gynnydd.
- Cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni/gofalwyr.
- Cyfnodau pontio ar hyd y continwmm rhwng 3 ac 16 oed.

Yn gysylltiedig â hyn, codwyd pryderon y byddai'r hyblygrwydd cynyddol a gynigir yn arwain at anghysondeb ledled Cymru, gan achosi amrywiaeth o broblemau o anghydraddoldeb darpariaeth i broblemau i ddysgwyr sy'n symud rhwng ysgolion. Ystyriwyd hyn yn bennaf wrth fireinio'r broses ar gyfer datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd. Mae diben y broses hon bellach wedi'i fynegi'n gliriach, ynghyd â'r rôl a fydd gan ddeialog broffesiynol i'w chwarae yn hyn o beth. Ar y cyd â rôl benodol y disgrifiadau dysgu mewn cydweithrediad â'r egwyddorion cynnydd, dylai hyn annog tegwch i ddysgwyr ledled Cymru a helpu i sicrhau bod ysgolion yn cynllunio, yn mabwysiadu ac yn gweithredu cwricwlwm sy'n galluogi dysgwyr i wneud cynnydd priodol ym mhob agwedd ar y cwricwlwm.

Sut y bydd y trefniadau asesu yn cefnogi'r amrywiaeth lawn o ddysgwyr, gan gynnwys y rheini yn y blynyddoedd cynnar a'r rheini ag anghenion dysgu ychwanegol

Themâu allweddol

Awgrymodd adborth ar ddrafft mis Ebrill 2019 y gellid cynnig mwy o eglurder o ran sut roedd y canllawiau yn cefnogi trefniadau asesu i bob dysgwr.

Yr hyn a newidiwyd gennym

Yn hytrach na chynnwys canllawiau penodol ar gyfer grwpiau penodol o ddefnyddwyr, datblygwyd y canllawiau asesu mewn ffordd sy'n briodol ar gyfer pob dysgwr, ni waeth beth fo'i oedran, ei gam datblygu na ph'un a oes ganddo anghenion ychwanegol ai peidio. Disgrifir cynnydd fel rhywbeth sy'n unigryw i bob unigolyn, a thrwy gydol y canllawiau, cyfeirir at gymorth a her briodol, gan ystyried unrhyw rwystrau i ddysgu a all fod gan unigolyn.

Yn unol â chanllawiau ehangach y Cwricwlwm i Gymru, gwnaethom hefyd nodi sut y bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi cwricwlwm, gan gynnwys trefniadau asesu priodol, i ddarparu addysg feithrin nas cynhelir a ariennir yn 2021, a sut y caiff canllawiau statudol ar wahân i helpu unedau cyfeirio disgyblion a'r rheini sy'n gyfrifol am ddarparu addysg heblaw yn yr ysgol eu cyhoeddi yn 2021.

Mwy o eglurder ynghylch y gydberthynas rhwng asesu ac atebolrwydd

Themâu allweddol

Nododd llawer o ymatebwyr fod angen egluro'r gydberthynas rhwng asesu ac atebolrwydd allanol a gwaith monitro cenedlaethol er mwyn cyflawni'r newid diwylliannol dymunol. Rydym eisoes wedi cymryd camau i wahanu dibenion asesu ar gyfer dysgu ac atebolrwydd ar lefel genedlaethol drwy roi'r gorau i gyhoeddi data asesiadau athrawon a data Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ar lefel ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. O dan y Cwricwlwm i Gymru, bydd rhaniad clir rhwng y ddwy agwedd hyn.

Yr hyn a newidiwyd gennym

O fewn y canllawiau diwygiedig, rydym yn nodi'n amlwg mai diben asesu yw helpu pob dysgwr i wneud cynnydd ac mai dim ond o fewn ysgolion y caiff y wybodaeth a gesglir drwy'r trefniadau ar gyfer asesu dysgwyr unigol ei defnyddio. Mae'r canllawiau hefyd yn datgan na ddylai unrhyw gorff/parti allanol gasglu na chyhoeddi'r wybodaeth hon, gan helpu i roi'r gorau i'r defnydd a wneir o wybodaeth asesu ar hyn o bryd, a'r pwys sylweddol a roddir arni o ganlyniad i hynny.

Gwneir cysylltiad amlwg yn y canllawiau rhwng asesu a gwerthuso a gwella mewn perthynas â'r broses hunanwerthuso y bydd ysgolion yn ei rhoi ar waith er mwyn adolygu a gwella eu dysgu a'u haddysgu, gan sicrhau eu bod yn cefnogi cynnydd dysgwyr yn effeithiol. Mae'r canllawiau asesu bellach yn cyfleu sut y disgwylir i'r gwersi a ddysgir drwy asesu cynnydd dysgwyr a'r broses o 'Ddatblygu dealltwriaeth a rennir o gynnydd' gyfrannu at y broses hon mewn ffordd ddefnyddiol.

Y pwyslais a roddir ar ddiben a rôl e-bortffolios

Themâu allweddol

Ymhlith yr ymatebwyr hynny a gyfeiriodd at e-bortffolios, ymddengys fod cefnogaeth eang o blaid defnyddio system o'r fath wrth asesu. Ar ôl ystyried yr adborth a gafwyd mewn perthynas ag e-bortffolios, roeddem o'r farn ei bod yn hanfodol cynnig hyblygrwydd i ysgolion ddatblygu a defnyddio e-bortffolios mewn ffordd sy'n briodol ar gyfer eu cwricwla a'u cyd-destun unigol.

Yr hyn a newidiwyd gennym

O ganlyniad i'r adborth, rydym wedi dileu cyfeiriadau at e-bortffolios yn y canllawiau diwygiedig, ond byddwn yn parhau â'n gwaith i ddatblygu templedi e-bortffolio i ysgolion eu defnyddio a'u haddasu fel sy'n briodol.

Fodd bynnag, rydym wedi cadw ac atgyfnerthu'r negeseuon yn y canllawiau sy'n cyfeirio at ddysgwyr fel cyfranogwyr gweithredol yn y broses ddysgu, fel unigolion sy'n myfyrio ar eu dysgu eu hunain er mwyn datblygu dealltwriaeth lawn a chytbwys o'u cynnydd unigol. Mae defnyddio e-bortffolios yn un ffordd y gellid galluogi hyn.

Y camau nesaf

Gan fod y canllawiau asesu bellach wedi'u cyhoeddi, byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygu canllawiau ategol pellach, deunyddiau enghreifftiol ac adnoddau dysgu proffesiynol er mwyn helpu i roi trefniadau asesu effeithiol ar waith i gefnogi cynnydd dysgwyr.

Byddant yn anelu at ymdrin â'r prif heriau sy'n gysylltiedig â rhoi'r canllawiau asesu newydd ar waith a byddant yn canolbwyntio ar sut y gellir helpu ysgolion i gynllunio a datblygu eu trefniadau asesu eu hunain fel rhan o'u cwricwla.

Sgiliau trawsgwricwlaidd a fframweithiau ategol

Themâu allweddol

Cododd yr adborth ar ddrafft mis Ebrill 2019 gwestiynau am rôl barhaus y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol a pham eu bod yn cael eu cadw fel dogfennau ar wahân o ystyried bod sgiliau trawsgwricwlaidd wedi'u cynnwys ym mhob maes o'r cwricwlwm newydd. Codwyd y diffyg cyfeiriad at addysgu sgiliau digidol yng nghanllawiau'r cwricwlwm fel ffactor a oedd yn cyfyngu ar ymdrechion i ddatblygu cymhwysedd digidol ym mhob rhan o'r cwricwlwm.

O ran strwythur y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol eu hunain, roedd yr adborth o blaid dileu grwpiau blwyddyn a defnyddio camau cynnydd yn eu lle er mwyn bod yn gydnaws â'r Meysydd. Dangoswyd y newid strwythurol hwn yn y fersiynau o'r ddau Fframwaith a ddisbarthwyd wrth ofyn am adborth. Roedd gan rai amheuan am addasrwydd y fframweithiau ar gyfer dysgu/addysgu yn y blynyddoedd cynnar. Yn fwy penodol, yn y Fframwaith Llythrennedd, awgrymwyd y dylai llinyn gwrando a siarad ddisodli'r llinyn llafaredd er mwyn bod yn gydnaws â'r Maes leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu a'r angen i roi mwy o bwyslais ar ddatblygu ymwybyddiaeth ffonolegol wrth ddarllen.

Yr hyn a newidiwyd gennym

Diweddarwyd canllawiau'r cwricwlwm i adlewyrchu pwysigrwydd datblygu llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol a natur orfodol y sgiliau hyn yn y cwricwlwm newydd yn well. Ceir pwyslais ar gynllunio cwricwlwm sy'n cynnwys y broses o ddatblygu'r sgiliau hyn ym mhob maes dysgu, lle y bo'n briodol.

Mae'r canllawiau yn cynnwys dolenni i'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, gan ddarparu dull gweithredu cyffredin er mwyn helpu ysgolion ac athrawon i gynnig cyfleoedd i gymhwyso a datblygu'r sgiliau hyn.

Diweddarwyd cynnwys y Fframweithiau er mwyn bod yn gydnaws ag ethos a therminoleg y cwricwlwm newydd. Mae cynnydd yn y Fframweithiau yn gydnaws â chynnydd yn y Meysydd. Datblygwyd Camau cynnydd 1 a 2 gyda chymorth y gweithgor Camau Sylfaen gan felly sicrhau eu bod yn briodol ar gyfer y blynyddoedd cynnar a dysgwyr ag ADY.

Er mwyn bod yn gydnaws â'r Maes leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, disodlwyd llinyn llafaredd y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd gan llinyn gwrando a siarad a cheir mwy o bwyslais ar ymwybyddiaeth ffonolegol o fewn y llinyn darllen.

Mae'r Maes Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i ddatblygu cyfres amrywiol o gymwyseddau digidol, gan gydnabod eu natur a'u cymhwysiad trawsgwricwlaidd. Fel rhan o'r diwygiadau i'r disgrifiadau dysgu yn y Maes hwn, mae'r defnydd o amrywiaeth o dechnolegau digidol a chymwysadau meddalwedd yn ymhlyg, sydd hefyd yn ategu cyfleoedd tebyg i ddatblygu'r sgiliau hyn o fewn Meysydd eraill. Felly, mae'r canllawiau yn nodi'n gliriach y dylai ysgolion a lleoliadau, wrth gynllunio eu cwricwlwm, ystyried sut a phryd y dylid addysgu i'w defnyddio, gan adeiladu ar ddysgu blaenorol.

Y camau nesaf

Nid adolygwyd y camau rhagflaenol (a ddatblygwyd o'r map llwybrau Ar Drywydd Dysgu) eto a bydd angen eu hystyried ymhellach yn ystod 2020, gan gofio'r gwaith sy'n mynd rhagddo i adolygu Map Llwybrau Ar Drywydd Dysgu.

Caiff fersiynau rhyngweithiol o'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol, yn cynnwys enghreifftiau (lle y bo'n bosibl), eu datblygu yn ystod 2020.

Bydd angen canllawiau hefyd wrth drosglwyddo i'r fframweithiau sgiliau trawsgwricwlaidd ar eu newydd wedd a'u defnyddio.

Adborth gan ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen

Themâu allweddol

Gwnaed amrywiaeth eang o sylwadau gan ymarferwyr a grwpiau sy'n ymwneud â'r blynyddoedd cynnar mewn ymateb i ganllawiau drafft mis Ebrill 2019.

Roedd y prif faterion a godwyd fel a ganlyn.

- Roedd llawer o'r deilliannau cyflawniad yng Ngham cynnydd 1 ym mhob un o'r Meysydd yn amhriodol i ddysgwyr 3 a 4 oed ac nid oeddent yn ymdrin â chymhlethdod datblygiad plant yn ystod y cyfnod yn arwain at Gam cynnydd 1.
- Nid oedd y dysgu yn gyffredinol rhwng Camau cynnydd 1 a 2 yn ymdrin ag egwyddorion datblygiad plant ac roedd perygl y byddai'n tanseilio dull gweithredu cyfannol cyfredol y Cyfnod Sylfaen.
- Roedd yn anodd ymdrin ag ehangder y canllawiau drafft, yn enwedig i ymarferwyr sy'n gweithio yn y sector nas cynhelir, ac roedd yr iaith yn rhy gymhleth ar brydiau.
- Roedd y cyflwyniad ar-lein yn rhy gymhleth ac roedd yn anodd nodi adrannau penodol a oedd yn berthnasol i'r blynyddoedd cynnar.
- Mynegwyd pryderon am allu ymarferwyr, yn enwedig y rheini yn y sector nas cynhelir, i gynllunio'r cwricwlwm.
- Roedd problemau posibl o ran y man cychwyn a'r trefniadau asesu ar gyfer ein dysgwyr ieuengaf, gyda pherygl y byddai hyn yn effeithio ar gyfnodau pontio.
- Gwerth cyhoeddi'r ddogfen 'Diwylliant dysgu' a luniwyd yn ystod y broses o ddatblygu'r cwricwlwm fel rhan o'r canllawiau er mwyn helpu ymarferwyr i ddeall egwyddorion addysgeg sy'n sail i'r broses o ddatblygu'r cwricwlwm newydd.

Yr hyn a newidiwyd gennym

Aeth grŵp Camau Sylfaen, a oedd yn cynnwys arbenigwyr yn y Cyfnod Sylfaen o'r sector a gynhelir a'r sector nas cynhelir ac ymarferwyr sy'n gweithio gyda dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), ati i adolygu priodolrwydd datblygiadol y deilliannau cyflawniad (disgrifiadau dysgu bellach) yng Nghamau cynnydd 1 a 2.

Gweithiodd y grŵp yn agos gydag aelodau o bob Maes er mwyn symleiddio iaith y disgrifiadau dysgu ac er mwyn sicrhau ei bod yn gydnaws ag egwyddorion datblygiad plant er mwyn cefnogi dysgu priodol yn ystod y camau cynnydd hyn. Yn ogystal, darparodd y grŵp ddadansoddi parhaus er mwyn sicrhau cydlyniad rhwng Camau cynnydd 1 a 2 a Cham cynnydd 3.

Drafftiodd y grŵp hefyd adran yn y canllawiau cyffredin ar ddatblygu addysgeg, er mwyn sicrhau y gellir addasu'r egwyddorion addysgegol craidd, sy'n gweithio'n effeithiol yng nghwricwlwm presennol y Cyfnod Sylfaen, i gefnogi arferion ym mhob un o'r camau cynnydd yn y cwricwlwm newydd.

Y camau nesaf

Canllawiau 'camau galluogi'

Wrth i waith y Grŵp Camau Sylfaen fynd rhagddo, daeth yn amlwg bod angen rhagor o waith i ymdrin â'r newidiadau datblygiadol cyflym ymhlith dysgwyr yn ystod y cyfnod dysgu sy'n arwain at Gam cynnydd 1. Er mwyn ymdrin â'r pryderon hyn, mae angen canllawiau pellach ar ddysgu ac addysgu er mwyn helpu ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant 3 a 4 oed mewn lleoliadau a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir. Bydd y canllawiau 'camau galluogi' hyn yn darparu disgrifiadau lefel uchel o'r dysgu a all helpu wrth gynllunio ar gyfer dysgwyr cyn Cam cynnydd 1. Bydd y camau hyn hefyd yn helpu dysgwyr ag ADY, llawer ohonynt na fydd o bosibl yn datblygu y tu hwnt i Gam cynnydd 1.

Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau nas cynhelir

Drwy gydol y broses adborth a mireinio, daeth yn glir nad yw'n debygol y bydd gan leoliadau nas cynhelir y capasiti, yr arbenigedd na'r adnoddau i gynllunio a datblygu eu cwricwlwm eu hunain. Felly, rydym yn datblygu cwricwlwm i'w ddefnyddio gan leoliadau nas cynhelir er mwyn ymdrin â hyn. Bydd y gwaith 'camau galluogi' yn darparu man cychwyn ar gyfer y gwaith hwn.

Adolygiad o drefniadau asesu sylfaenol

Secondiwyd cynghorydd proffesiynol i Lywodraeth Cymru i weithio gyda phartneriaid allanol er mwyn adolygu'r trefniadau asesu presennol yn y blynyddoedd cynnar a sicrhau eu bod yn gydnaws â'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd.

Y Celfyddydau Mynegiannol

Themâu allweddol

Mynegwyd cyffro yn yr adborth ar ddrafft mis Ebrill 2019 fod gan Maes y Celfyddydau Mynegiannol ran amlwg i'w chwarae yn y cwricwlwm. Nodwyd y pwyntiau canlynol.

- Gallai strwythur a chynnwys y Maes ei hun arwain at lai o ffocws ar y celfyddydau.
- Roedd yr adran 'cynllunio ar gyfer dysgu' ddrafft yn ymddangos yn rhy dechnegol, gyda geirfa disgyblaeth-benodol gymhleth.
- Roedd angen datblygu dylunio fel rhan o'r Celfyddydau Mynegiannol ymhellach.
- Roedd heriau o ran cyflwyno ehangder y Maes yn effeithiol, yn enwedig i'r rheini nad oedd ganddynt arbenigedd na phrofiad o fewn cyfrwng neu gelfyddyd benodol (ystyriaeth ar gyfer dysgu proffesiynol).

Yr hyn a newidiwyd gennym

Strwythur a chynnwys

Mae'r tri datganiad o'r hyn sy'n bwysig o ran dysgu yn y Maes hwn yn adlewyrchu'r broses greadigol ac yn helpu i strwythuro'r dysgu yn y pum disgyblaeth sy'n rhan o'r Celfyddydau Mynegiannol. Mae dyfnder ac ehangder y Maes hwn yn sicrhau ei fod yr un mor bwysig â'r meysydd eraill. Mae nifer o ddulliau gweithredu bellach wedi'u nodi yn y canllawiau cyffredin a all helpu i wireddu'r Maes hwn.

Cynllunio eich cwricwlwm ar gyfer eich Maes

Mae egwyddorion mwy penodol sy'n gysylltiedig â'r Celfyddydau Mynegiannol bellach wedi'u nodi yn yr adran 'Cynllunio eich cwricwlwm'. Mae hyn yn cynnwys profiad, gwybodaeth a sgiliau disgyblaeth-benodol. Mireiniwyd y rhan hon o'r canllawiau i ystyried y sylwadau am iaith gymhleth a geirfa disgyblaeth-benodol.

Dylunio

Ymdrinnir â'r broses ddylunio ym Maes Gwyddoniaeth a Thechnoleg a Maes y Celfyddydau Mynegiannol. Yn y Celfyddydau Mynegiannol, ychwanegwyd llinyn cynnydd ar gyfer dylunio at y datganiad o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer creu er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod dylunio yn rhan o bob disgyblaeth yn y Maes hwn.

Y camau nesaf

Gellir cael rhagor o wybodaeth am ddysgu creadigol drwy'r celfyddydau yn <https://hwb.gov.wales/parthau/dysgu-creadigol/>

Iechyd a Lles

Themâu allweddol

Roedd cefnogaeth eang o blaid Maes Iechyd a Lles a chytundeb cyffredinol bod y canllawiau yn ategu dull gweithredu ysgol gyfan. Nodwyd y pwyntiau canlynol.

- Gofynnwyd am fwy o fanylion am bynciau unigol.
- Croesawyd yr ymdrech i gynnwys iechyd meddwl yn y cwricwlwm ond ystyriwyd nad oedd digon o flaenoriaeth yn cael ei roi iddo gan nad oedd digon o gyfeiriadau ato.
- Codwyd pryderon am y defnydd o'r term 'hunanreoleiddio', a phryderon bod gormod o bwyslais yn cael ei roi ar ddysgwyr i reoli pryderon iechyd meddwl ac ymdopi â nhw.
- Codwyd pryderon am y diffyg sylw i weithgarwch corfforol a gofynnwyd i'r gofynion gael eu nodi'n well.
- Codwyd pryderon am yr angen am gymorth dysgu proffesiynol, gan fod y maes yn newydd.
- Codwyd pryderon am ddiogelu a gofynnwyd am fwy o bwyslais ar sicrhau y gall dysgwyr nodi ymddygiad diogel ac anniogel.
- Gofynnwyd am fwy o gyfeiriadau at hawliau dynol yn y cwricwlwm.

Yr hyn a newidiwyd gennym

Methodoleg a chanllawiau clir

Mae'r canllawiau wedi'u mireinio â'u strwythur newydd yn egluro'r dull gweithredu newydd mewn perthynas â'r cwricwlwm ac yn egluro sut y dylid defnyddio'r ddogfennaeth. Maent yn egluro mai cwricwlwm wedi'i arwain gan ddibenion yw'r Cwricwlwm i Gymru ac nad yw'n dynodi rhestrau o 'bynciau/cynnwys' mwyach. Fodd bynnag, drafftwyd y canllawiau wedi'u mireinio ar gyfer Maes Iechyd a Lles er mwyn sicrhau bod y disgrifiadau dysgu yn cynnwys digon o ddyfnder ac ehangder i ganiatáu i ysgolion addysgu amrywiol bynciau y disgwylir iddynt eu cynnwys yn fanwl, e.e. cyflyrau, nofio, nifer penodedig o oriau ar gyfer gweithgarwch corfforol ac ati.

Iechyd meddwl

Mae strwythur newydd y canllawiau yn egluro sut y dylid defnyddio'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, ac mae'r adran 'Cynllunio eich cwricwlwm' ar gyfer Iechyd a Lles yn egluro natur gyfannol y datganiadau, gan nodi'n glir y dylid eu defnyddio fel lensys ar gyfer archwilio gwahanol bynciau a materion. Felly er mai dim ond mewn un datganiad o'r hyn sy'n bwysig y cyfeirir at iechyd meddwl, dylid ei ddefnyddio wrth ystyried y broses o gynllunio'r cwricwlwm ar gyfer y Meysydd i gyd.

Mae'r datganiad o'r hyn sy'n bwysig 'Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddynt yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol', hefyd wedi cael ei fireinio'n sylweddol er mwyn egluro pwysigrwydd y dysgu a'r profiadau yn y maes hwn a diwygiwyd y geiriad er mwyn sicrhau y rhoddir y pwyslais cadarnhaol, priodol ar ystyriaethau iechyd meddwl.

Mireiniwyd y canllawiau er mwyn egluro ystyr hunanreoleiddio, gan gyfeirio'n glir at sut y gall cymorth gan eraill gyfrannu at hyn. Maent yn egluro bod a wnelo hunanreoleiddio â helpu dysgwyr i fod yn annibynnol ond gan sicrhau eu bod yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau i gymryd rheolaeth.

Diogelu

Mae'r canllawiau diwygiedig yn atgyfnerthu'r dysgu o ran diogelu, ac mae'r disgrifiadau dysgu o dan y datganiad o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer cydberthynas iach yn canolbwyntio ar ddarparu cyfleoedd dysgu sy'n cynnig gwybodaeth a dealltwriaeth o gydberthynas ddiogel ac annioegel a sut i ymateb.

Hawliau dynol

Mae'r canllawiau diwygiedig yn atgyfnerthu'r dysgu a phrofiadau mewn perthynas â hawliau dynol. Drafftwyd y disgrifiadau dysgu ar gyfer Iechyd a Lles er mwyn atgyfnerthu gallu dysgwyr i brofi a dysgu am hawliau, eu hawliau nhw eu hunain a hawliau eraill, ac i ddysgu sut i arfer a pharchu hawliau.

Yn ogystal ag atgyfnerthu'r dysgu a'r profiad o fewn Maes Iechyd a Lles, mae addysg hawliau dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) bellach yn un o elfennau trawsbynciol y cwricwlwm ac yn chwarae rhan glir yn y canllawiau cyffredin, gan sicrhau y caiff hawliau dynol a CCUHP eu hystyried mewn ffordd gyfannol wrth gynllunio cwricwlwm ysgol.

Y Dyniaethau

Themâu allweddol

Roedd cefnogaeth eang o blaid cynnwys y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn y Dyniaethau. Nodwyd y pwyntiau canlynol.

- Codwyd pryderon am ddiffyg methodoleg glir ar gyfer dewis cynnwys.
- Roedd pryderon o ran gwelededd a rôl benodol disgyblaethau wrth gyfrannu at Maes y Dyniaethau a chefnogi cynnydd yn y disgyblaethau.
- Croesawyd y pwyslais ar 'gynefin' yn y cwricwlwm, ond gofynnwyd am ganllawiau cliriach ar y lefel genedlaethol, gan gynnwys pa ddigwyddiadau a phynciau allweddol y dylai pob dysgwr eu hastudio.
- Gofynnwyd am fwy o eglurder o ran rôl addysg grefyddol a'i fframwaith ategol.

Yr hyn a newidiwyd gennym

Methodoleg glir ar gyfer dewis cynnwys

Mewn ymateb i'r adborth, mae fframwaith newydd Cwricwlwm i Gymru bellach yn darparu canllawiau ar:

- ddatblygu gweledigaeth ar gyfer cwricwlwm mewn ysgol
- datblygu methodoleg ar gyfer cynllunio a gweithredu cwricwlwm
- canllawiau penodol wrth gynnwys dysgu ym mhob Maes, gan gynnwys y Dyniaethau.

Mae'r canllawiau penodol ar gyfer Maes y Dyniaethau yn pwysleisio'r egwyddorion allweddol canlynol wrth ddewis cynnwys.

- Persbectifau lleol, cenedlaethol a byd-eang.
- Cwmpas/ystod.
- Cydlyniad.
- Trylwyredd.
- Ffocws.
- Sensitifrwydd.

Gwelededd a rôl benodol disgyblaethau

Mae'r canllawiau diwygiedig yn pwysleisio cyfraniad allweddol ac unigryw hanes, daearyddiaeth, crefydd, gwerthoedd a moeseg, astudiaethau busnes ac astudiaethau cymdeithaol i'r Maes. Yn dilyn trafodaeth ag arbenigwyr yn y disgyblaethau, rydym wedi ychwanegu adran newydd er mwyn nodi pwysigrwydd sylfaenol dealltwriaeth broffesiynol o ddiben gwahanol ddisgyblaethau a'u rhyngberthynas â'r Maes hwn.

Caiff canllawiau pellach eu datblygu yn ystod 2020 er mwyn amlinellu:

- sut mae'r cysyniadau sydd wrth wraidd y disgyblaethau sy'n cyfrannu yn cefnogi Maes y Dyniaethau
- natur cynnydd ar gyfer pob disgyblaeth gyfrannol (gan gynnwys unrhyw linyddiau ar gyfer disgyblaethau penodol) sy'n cyfrannu at y Maes.

Cymru a Hanes Cymru

Cwricwlwm wedi'i arwain gan ddibenion yw'r Cwricwlwm i Gymru ac nid yw'n dynodi rhestrau o 'bynciau/cynnwys' i'w haddysgu mwyach. Mae'n mynegi'n glir y ddealltwriaeth gysyniadol sydd ei hangen er mwyn gwneud cynnydd wrth ddysgu.

Mae'r canllawiau diwygiedig ar gyfer Maes y Dyniaethau yn pwysleisio bod cyd-destunau lleol, cenedlaethol a byd-eang yn rhan annatod o'r Maes a'u bod yn rhan o'r egwyddorion allweddol sy'n gysylltiedig â dewis cynnwys. Maent yn amlinellu'r angen i roi sylw cyson i hanes ardal leol dysgwyr a hanes Cymru, yn ogystal â hanes y byd ehangach, er mwyn galluogi dysgwyr i feithrin dealltwriaeth o natur gymhleth ac amrywiol cymdeithasau, yn y gorffennol a'r presennol.

Mae canllawiau'r cwricwlwm hefyd yn nodi'n glir ei bod yn bwysig sicrhau bod cwricwla ysgolion yn gyffredinol yn adlewyrchu Cymru, ei threftadaeth ddiwylliannol a'i hamrywiaeth, ei hieithoedd a gwerthoedd, hanesion a thraddodiadau ei chymunedau a'i phobl. Dylai dysgwyr gael eu trwytho mewn dealltwriaeth o'r hunaniaethau, y tirweddau a'r hanesion sy'n dod at ei gilydd i ffurfio'u 'cynefin'. Bydd hyn nid yn unig yn eu galluogi i feithrin ymdeimlad cryf o'u hunaniaeth a'u lles eu hunain, ond hefyd yn eu galluogi i feithrin dealltwriaeth o hunaniaethau pobl eraill a chreu cysylltiadau â phobl, lleoedd a hanesion mewn mannau eraill yng Nghymru a ledled y byd.

Rydym yn ystyried pa gymorth pellach fyddai'n ddefnyddiol i ymarferwyr i'w galluogi i wireddu'r weledigaeth hon, gan gynnwys sicrhau bod adnoddau priodol ar gael i helpu wrth ddysgu ac addysgu am hanesion Cymru a'r byd.

Rôl crefydd, gwerthoedd a moeseg (cynt - addysg grefyddol) yn y Dyniaethau

Bydd crefydd, gwerthoedd a moeseg yn ofyniad statudol yn y cwricwlwm newydd i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Byddwn yn cyhoeddi fframwaith ategol i ymgynghori arno yn ystod tymor y gwanwyn sy'n darparu rhagor o wybodaeth am y ffordd y gellir addysgu crefydd, gwerthoedd a moeseg fel rhan o Maes y Dyniaethau. Cafodd ei lunio gan ymarferwyr ar y cyd â Llywodraeth Cymru. Mae ethos ac athroniaeth y fframwaith hwn yn cyfateb i ethos ac athroniaeth Cwricwlwm i Gymru 2022.

leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Themâu allweddol

Roedd cefnogaeth eang o ran ffocws datganiadau o'r hyn sy'n bwysig leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. Cafwyd amrywiaeth eang o adborth ar ddrafft mis Ebrill 2019 yn y Maes hwn, gan gynnwys:

- angen mwy o fanylion ym maes datblygiad iaith cynnar
- angen disgwyliadau uchelgeisiol, cyflawnadwy ar gyfer Cymraeg mewn lleoliadau, ysgolion a ffrydiau cyfrwng Saesneg
- angen eglurder ynghylch ieithoedd rhyngwladol ar Gam cynnydd 2 a Cham cynnydd 3
- angen eglurder ynghylch llenyddiaeth
- angen cyfeirio at drawsieithu a chyfryngu iaith.

Yr hyn a newidiwyd gennym

Datblygiad iaith cynnar

Mae'r disgrifiadau dysgu ar gyfer Camau cynnydd 1 a 2 bellach yn cyfeirio at y camau graddol yn ystod datblygiad iaith cynnar. Ceir rhagor o fanylion yn y Fframwaith Llythrennedd diwygiedig. Mae'r adran 'Cynllunio eich cwricwlwm' ar gyfer leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn cynnwys rhagor o wybodaeth am addysgu darllen.

Cymraeg mewn lleoliadau, ysgolion a ffrydiau cyfrwng Saesneg

Mae cynnydd mewn leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn seiliedig ar gontinwmm dysgu. Mae'n dechrau heb fawr ddim iaith, neu heb unrhyw iaith o gwbl, ac yn datblygu tuag at hyfedredd.

Er mwyn adlewyrchu gwahanol gyflymder a dyfnder y dysgu mewn gwahanol gyd-destunau dysgu iaith, mae'r cwricwlwm yn cynnwys rhai disgrifiadau dysgu sydd wedi'u gwahaniaethu ar gyfer Cymraeg mewn lleoliadau, ysgolion a ffrydiau cyfrwng Cymraeg, ar gyfer Cymraeg mewn lleoliadau, ysgolion a ffrydiau cyfrwng Saesneg ac ar gyfer ieithoedd rhyngwladol. Mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg, mae'r pwyslais ar feithrin sgiliau cyfathrebu rhyngbersonol yn Gymraeg. Bydd dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg hefyd yn gwneud cynnydd o ran hyfedredd iaith academaidd yn Gymraeg. Bydd ysgolion ac ymarferwyr yn datblygu eu cwricwla er mwyn sicrhau bod pob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed yn gwneud cynnydd yn Gymraeg ar hyd y continwmm dysgu iaith.

Er mwyn gwireddu'r uchelgais o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, caiff y disgrifiadau dysgu ar gyfer Cymraeg mewn lleoliadau, ysgolion a ffrydiau cyfrwng Saesneg eu hadolygu'n rheolaidd gyda'r bwriad yn yr hirdymor o gael gwared ar y sgaffaldiau hyn a galluogi pob ysgol i ddefnyddio'r un disgrifiadau dysgu ar gyfer Cymraeg.

leithoedd rhyngwladol ar Gamau cynnydd 2 a 3

Mae'r disgrifiadau dysgu ar gyfer ieithoedd rhyngwladol yn adlewyrchu profiadau mewn gwahanol ieithoedd o Gam cynnydd 2, gyda chynnydd mewn iaith ryngwladol yn cael ei fynegi o Gam cynnydd 3. O ganlyniad, yn ychwanegol at Gymraeg a Saesneg, dylai pob dysgwr brofi a dysgu o leiaf un iaith ryngwladol yn yr ysgol gynradd. Mae adran 'Cynllunio eich cwricwlwm' ym Maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn nodi pethau i'w hystyried wrth benderfynu pa iaith neu ieithoedd i'w haddysgu.

Datblygwyd pob disgrifiad dysgu yn Maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn seiliedig ar gontinwwm dysgu iaith gyda'r dysgwyr yn dechrau heb fawr ddim sgiliau iaith, ac yn gwneud cynnydd tuag at hyfedredd yn yr ieithoedd y byddant yn eu dysgu. Mae'r sgiliau a'r wybodaeth mewn ieithoedd rhyngwladol yn adeiladu ar brofiadau a dysgu am ieithoedd drwy'r datganiad o'r hyn sy'n bwysig 'Mae Ieithoedd yn ein cysylltu'. Maent hefyd yn seiliedig ar y wybodaeth a'r sgiliau a feithrinir drwy ddysgu Cymraeg a Saesneg.

Llenyddiaeth

Mae'r datganiad o'r hyn sy'n bwysig 'Mae Llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd' yn cyfeirio at brofiad dysgwyr a'u hymateb i lenyddiaeth a chreu eu gwaith eu hunain. Ceir diffiniad o lenyddiaeth yn y canllawiau sy'n fwrriadol ehangach na'r diffiniad a ddefnyddiwyd yn draddodiadol gan ysgolion a lleoliadau.

Mae adran 'Cynllunio eich cwricwlwm' ym Maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn cynnig canllawiau ar sut i ddewis lenyddiaeth sy'n ddigon cyfoethog a sylweddol i ennyn diddordeb dysgwyr ar lefel ddeallusol ac emosiynol, i'w hannog i gael eu hysbrydoli, eu sbarduno a'u newid, ac i ehangu eu diddordeb a'u brwdfrydedd dros lenyddiaeth.

Mae'n nodi y dylid rhoi cyfle i ddysgwyr brofi a dysgu am lenyddiaeth a chrewyr lenyddiaeth sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol, boed hynny yng Nghymru (gan gynnwys lenyddiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg), cenhedloedd eraill y DU ac yn rhyngwladol (gan gynnwys lenyddiaeth yn Saesneg ac yn ieithoedd rhyngwladol ac ieithoedd cartref y dysgwyr). Gallai'r cyfraniad hwn fod o ran genre lenyddiaeth, o ran yr iaith, neu o ran diwylliant a threftadaeth.

Trawsieithu a chyfryngu iaith

Bydd pob dysgwr yng Nghymru yn dysgu Cymraeg, Saesneg ac o leiaf un iaith ryngwladol. Mae'r Maes hwn yn dod â'r ieithoedd hyn ynghyd. Drwy ddysgu mewn modd cyfannol am ieithoedd ac ar draws ieithoedd, gellir adlewyrchu gwerth a buddiannau ieithoedd yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Dangosir cynnydd wrth gyfryngu iaith ac wrth drawsieithu yn y disgrifiadau o'r dysgu ar gyfer y datganiad o'r hyn sy'n bwysig 'Mae Ieithoedd yn ein cysylltu' a gellir cymhwysu'r sgiliau hyn yn y dysgu i gyd yn y Maes hwn a thu hwnt. Ceir diffiniadau o 'gyfryngu' a 'thrawsieithu' yng nghanllawiau'r cwricwlwm, fel a ganlyn.

Mae *cyfryngu iaith* yn cyfeirio at weithgaredd lle y caiff ystyr o ffynhonnell ei gyfathrebu o un person i berson arall, weithiau yn yr un iaith (aralleirio, crynhoi) ac weithiau o un iaith i iaith arall (cyfieithu, dehongli). Mae'r dysgwr yn helpu pobl i gyfathrebu â'i gilydd drwy gyfleu, egluro neu gyfieithu gwybodaeth neu syniadau.

Mae *trawsieithu* yn arfer addysgegol sy'n symud rhwng dwy iaith o ran mewnbyn ac allbwn yn yr un gweithgaredd. Mae'r dysgwr yn derbyn gwybodaeth mewn un iaith ac yn gweithio gyda'r wybodaeth honno mewn iaith arall.

Y camau nesaf

Datblygiad iaith cynnar

Caiff canllawiau pellach eu datblygu i helpu lleoliadau nas cynhelir (gweler adran y Cyfnod Sylfaen).

Cymraeg mewn lleoliadau, ysgolion a ffrydiau cyfrwng Saesneg

Bydd cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gael i leoliadau ac ysgolion er mwyn i'r staff wella eu Cymraeg a'u methodoleg ar gyfer addysgu ieithoedd.

Ieithoedd rhyngwladol yn ystod Camau cynnydd 2 a 3

Bydd cyfleoedd dysgu proffesiynol ac adnoddau ar gael i ysgolion i'w helpu i addysgu ieithoedd rhyngwladol. Bydd enghreifftiau o'r ffordd y mae ysgolion cynradd yn bwrw ati ar hyn o bryd i addysgu trydedd iaith neu iaith ddilynol ar gael.

Rhagor o wybodaeth

Ceir rhagor o wybodaeth am ddulliau addysgu a dysgu ail iaith (sy'n berthnasol hefyd i ieithoedd dilynol) yn:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-06/180228-overview-approaches-second-language-acquisition-instructional-practices-summary-cy.pdf>

<https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-06/180607-effective-second-language-teaching-approaches-methods-summary-cy.pdf>

Ceir rhagor o wybodaeth am ddulliau addysgu dwyieithog yn:

<https://www.bangor.ac.uk/education-and-human-development/documents/English-pages.pdf>

<https://www.bangor.ac.uk/education-and-human-development/documents/Cymraeg-tudalen.pdf>

Mathemateg a Rhifedd

Themâu Allweddol

Cafodd Mathemateg a Rhifedd lai o adborth na'r meysydd dysgu a phrofiad eraill. Mae hyn gan fod Mathemateg a Rhifedd yn debyg i'r pwnc a addysgir fel rhan o'r cwricwlwm presennol, yn wahanol i'r meysydd eraill a ddaeth â phynciau presennol at ei gilydd, a cheir cytundeb helaeth yn rhyngwladol o ran yr hyn y dylid ei gynnwys fel rhan o gwricwlwm mathemateg.

Y prif faterion a gododd oedd:

- diffyg hygyrchedd y cwricwlwm i ymarferwyr y blynyddoedd cynnar ac unigolion nad ydynt yn arbenigwyr a'r ffaith bod rhai o'r deilliannau cyflawniad yn rhy ddatblygedig ar gyfer y grŵp oedran hwn
- ymdeimlad bod diffyg cyswllt rhwng y cwricwlwm a'r fframwaith rhifedd
- penodoldeb rhai o'r deilliannau cyflawniad, gan eu bod yn nodi tasgau gwirioneddol yn hytrach na chyfleu deilliannau mwy cyffredinol o natur gyffredin
- cais am fwy o gyngor ar addysgeg a mwy o enghreifftiau o sut y byddai cynnydd yn gweithio'n ymarferol.

Yr hyn a newidiwyd gennym

Edrychodd y Grŵp Camau Sylfaen ar Gamau cynnydd 1 a 2 yn gyffredinol, ond ymdriniodd y gwaith hwn hefyd â materion yn ymwneud â mathemateg a rhifedd. Mewn ymateb i adborth, gostyngwyd nifer y disgrifiadau dysgu sy'n gysylltiedig â'r camau cynnydd hyn ac fe'u gwnaed yn fwy priodol o ran datblygiad.

Drwy ddiwygio'r deilliannau cyflawniad hyn i greu disgrifiadau dysgu, mae'r datganiadau hyn bellach ar lefel uwch. O ganlyniad, mae'r datganiadau yn cwmpasu tua thair blynedd o ddysgu ac nid ydynt bellach yn cynnwys unrhyw ragnodi manwl na thasgau unigol. Yn unol â hyn, diwygiwyd elfen Rhifedd y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd er mwyn sicrhau ei bod yn gydnaws â'r cwricwlwm ac yn ei atgyfnerthu.

Ymdrinnir â rhai o'r materion a godwyd drwy ddysgu proffesiynol yn hytrach na thrwy fireinio'r cwricwlwm, er enghraifft, cynnig enghreifftiau o gynnydd.

Yn olaf o ran addysgeg, nid oes unrhyw waith ymchwil sy'n nodi bod un ffordd o addysgu mathemateg yn well nag unrhyw ffordd arall, ond darperir papur adnoddau ar ganllawiau addysgegol ynghyd â chanllawiau'r cwricwlwm.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Themâu Allweddol

Yn gyffredinol, cafodd Maes drafft mis Ebrill 2019 groeso cynnes, er bod rhywfaint o densiwn rhwng y rheini a oedd am gael mwy o fanylder yn y Maes hwn a'r rheini a oedd o'r farn ei fod o bosibl yn rhy ragnodol. Y prif faterion a gododd oedd:

- awgrymodd rhywfaint o'r adborth y gallai ehangder y dysgu ar draws y Maes fod yn anodd i'w reoli
- awgrymodd amrywiaeth eang o adborth manwl iawn ar eiriad a chynnwys y gellid gwella cywirdeb a chysondeb
- dylai esblygiad fod yn gliriach i ddysgwyr oedran cynradd
- yr angen am fwy o eglurder o ran ymdrin ag ehangder y dysgu yn y Maes, a sut roedd hynny'n berthnasol i'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, y broses o ddatblygu gwybodaeth bynciol a dulliau gweithredu thematig mewn perthynas â'r cwricwlwm
- cais am fwy o bwyslais ar newid yn yr hinsawdd ac eglurder ar y sefyllfa o ran addysg ar gyfer datblygu cynaladwy a dinasyddiaeth fyd-eang
- mwy o eglurder ar hanfod y dysgu mewn perthynas â chyfrifiaduriaeth
- sut y dylai ysgolion fynd ati i addysgu sgiliau digidol.

Yr hyn a newidiwyd gennym

Lefelau manylder

Mae'r broses o ailstrwythuro fframwaith cyfan y Cwricwlwm i Gymru yn ymdrin â nifer o'r materion penodol a godwyd o ran y Maes hwn; er enghraifft, lefel y manylder ac achosion o ddyblygu mewn canllawiau ar gyfer camau cynnydd cynharach. Ceir rhai achosion angenrheidiol o ddyblygu o hyd yn y 'disgrifiadau dysgu' ar draws rhai datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn ystod Camau cynnydd 1 a 2 er mwyn sicrhau eglurder. Fodd bynnag, yn gyffredinol wrth ymgymryd â'r broses ddiwygio mewn ffordd fwy cyfannol, mae'r camau sylfaenol hyn bellach yn cynrychioli'r dysgu a ddisgwylir yn well ac yn lleihau'r canllawiau sydd eu hangen.

Ystyriodd y grŵp GA bwyntiau adborth manwl, a'r diwygiadau a awgrymwyd lle y gwnaed hynny, fel rhan o'r broses fireinio. Ategwyd y broses hon hefyd gan waith adolygu gan gynghorwyr arbenigol. Mewn nifer o enghreifftiau, ni fabwysiadwyd awgrymiadau ar gyfer ychwanegiadau yn uniongyrchol er mwyn cynnal egwyddor sybsidiaredd yn fframwaith y cwricwlwm. Fodd bynnag, gwnaed diwygiadau mewn sawl achos er mwyn sicrhau bod y fframwaith yn cynnig cyfleoedd i ysgolion gynnwys agweddau mwy penodol ar ddysgu yn eu cwricwla.

Esblygiad

Mae'r datganiad o'r hyn sy'n bwysig am 'bethau byw' yn nodi bod pethau byw yn amrywiol, yn rhyngweithio â'u hamgylchedd ac yn esblygu dros gyfnodau sylweddol o amser. Felly mae pwysigrwydd esblygiad a dealltwriaeth gysniadol ohono yn amlwg yn y fframwaith o'r hyn sy'n bwysig sy'n berthnasol drwy gydol y continwmm dysgu o 3 i 16 oed, ac y cynigir y dylid ei wneud yn statudol.

Mae'r canllawiau diwygiedig yn nodi'n glir ein bod yn rhagweld y bydd y dysgu mewn lleoliadau cynradd yn dechrau drwy gydnabod bywyd a thwf, gan symud ymlaen i ystyried sut mae pethau byw yn datblygu ac yn cael epil, hyd at allu disgrifio sut maent wedi newid dros gyfnodau o amser. Mae hynny wedyn yn darparu'r sail ar gyfer dysgu pellach mewn lleoliadau uwchradd ar ymaddasu, mwntanu a dethol naturiol.

Ehangder y dysgu a'r cydberthnasau rhwng y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig

Mae'r canllawiau diwygiedig a ddarparwyd ar gyfer y Maes hwn, a'r cwricwlwm cyfan, wedi nodi rôl y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig wrth ddysgu yn gliriach. Mae'r chwe datganiad ar gyfer gwyddoniaeth a thechnoleg yn seiliedig ar grwpio elfennau dysgu hanfodol, felly bydd rhywfaint o amrywiad o gymharu â meysydd pwnc traddodiadol. Fodd bynnag, mae'r canllawiau yn cydnabod pwysigrwydd y disgyblaethau hyn o ran cynllunio cwricwlwm ysgolion, addysgu a chynnydd dysgwyr.

Newid yn yr hinsawdd ac addysg ar gyfer datblygu cynladwy a dinasyddiaeth fyd-eang

Bu ADCDF yn rhan allweddol o addysg yng Nghymru ers dros ddegawd. Fodd bynnag, mae'r broses o ddatblygu cwricwlwm newydd sy'n seiliedig ar bedwar diben (sy'n cwmpasu'r saith thema sy'n gysylltiedig ag addysg ar gyfer datblygu cynladwy a dinasyddiaeth fyd-eang ac yn mynd y tu hwnt iddynt) yn cynnig y cyfle i integreiddio canllawiau mewn ffordd fwy ystyrllon a hylaw i ysgolion. Felly, adolygwyd y Maes hwn, ynghyd â'r Dyniaethau ac Iechyd a Lles, er mwyn sicrhau y gall fframwaith y cwricwlwm diwygiedig ategu'r dysgu am newid yn yr hinsawdd, defnydd a gwastraff a'r amgylchedd naturiol.

Cysyniadau cyfrifiadurol a dysgu digidol

Mae'r datganiad o'r hyn sy'n bwysig mewn cyfrifiaduriaeth ynghyd â'r priod ddisgrifiadau dysgu wedi'u diwygio er mwyn adlewyrchu adborth (gan gynnwys mewnbwn gan arbenigwyr yn y maes newydd hwn o'r cwricwlwm) er mwyn cyfleu'r agweddau allweddol ar gyfrifiant yn gliriach.

Fel y nodwyd yn yr adran gynharach ar sgiliau trawsgwricwlaidd, mae Gwyddoniaeth a Thechnoleg hefyd yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i ddatblygu cyfres amrywiol o gymwyseddau digidol, gan gynnwys defnyddio dyfeisiau digidol. Fodd bynnag, nid dim ond yn y Maes hwn y gellid addysgu'r sgiliau hyn. Felly, diweddarwyd y canllawiau i ofyn i ysgolion ystyried yn benodol sut a phryd y dylid addysgu sgiliau

digidol i ddysgwyr gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnoleg a meddalwedd, gan adeiladu ar ddysgu blaenorol.

Ar Drywydd Dysgu

Cyfres o ddeunyddiau i helpu ymarferwyr i asesu dysgwyr ag anawsterau dysgu dwys a lluosog yw Ar Drywydd Dysgu. Fe'u cyhoeddwyd yn wreiddiol yn 2006 ac mae parch mawr tuag atynt ledled y DU ac yn rhyngwladol. Fel rhan o'r broses ehangach o ddiwygio'r cwricwlwm a threfniadau asesu, rydym wrthi'n diweddarau cyfres Ar Drywydd Dysgu.

Ym mis Ebrill 2019, gwnaethom gyhoeddi fersiwn wedi'i diweddarau o'r Map Llwybrau a 10 fideo yn dangos enghreifftiau o'r blychau a'r cerrig milltir arno. Casglwyd adborth drwy ffurflen ar-lein a digwyddiad ymgysylltu a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf. Bu'r broses hon yn amhrisiadwy wrth ein helpu i ddatblygu ein syniadaeth ymhellach mewn perthynas â deunyddiau Ar Drywydd Dysgu.

Gan weithio gydag aelodau Grŵp Cyngori Ar Drywydd Dysgu, rydym wedi ystyried y sylwadau a gafwyd. Mae aelodau'r Grŵp Cyngori yn cynnwys ymarferwyr o ysgolion arbennig cyfrwng Cymraeg a Saesneg, yn ogystal ag academyddion sy'n gweithio ym maes anawsterau dysgu dwys a lluosog. Mewn ymateb i'r adborth, rydym naill ai wedi diweddarau'r deunyddiau drafft yn uniongyrchol neu rydym yn gofyn am sylwadau pellach er mwyn llunio deunyddiau terfynol erbyn haf 2020.

Themâu allweddol

Isod ceir trosolwg o rai o'r themâu allweddol a ddeilliodd o'r adborth ar ddrafftiau mis Ebrill 2019.

- Ar y Map Llwybrau, roedd y sylwadau a gafwyd yn awgrymu y byddai ymatebwyr yn fodlon *newid geiriad y disgrifydd llwybrau Saesneg* 'Supported 1:1 turn-taking with adult' ('Gallu cymryd tro gydag oedolyn mewn sefyllfa 1:1, gyda chymorth') i 'Aided 1:1 turn-taking with adult', ond eu bod yr un mor fodlon cadw at y geiriad gwreiddiol.
- Cytunwyd nad oedd lleoliad 'Ymateb i'w enw ei hun' ar y Map Llwybrau gwreiddiol yn briodol ond, yn hytrach na'i ddileu'n llwyr, gofynnodd rhai a ddylid ei symud yn is i lawr y map er mwyn adlewyrchu cam datblygiad diweddarach.
- Hygyrchedd yr iaith a ddefnyddir – yn enwedig i ymarferwyr sy'n newydd i'r proffesiwn; gofynnwyd hefyd am eglurhad pellach mewn perthynas â nifer o'r disgrifyddion llwybrau ar y Map Llwybrau.
- Cafwyd adborth cryf o blaid datblygu rhestr termau i gyd-fynd â fersiwn derfynol y Map Llwybrau, yn ogystal â'r wybodaeth a ddarperir yn y fideos enghreifftiol.
- Croesawodd yr ymatebwyr y cyfle i wyllo'r clipiau fideo a chafwyd adborth cadarnhaol, gan nodi bod y fideos yn adnodd buddiol i ymarferwyr ac o ran helpu aelodau newydd o staff.
- Roedd y wybodaeth a oedd yn rhan o'r clipiau fideos yn dangos yn glir beth a oedd yn cael ei asesu ond yn cydnabod ar yr un pryd anghenion ac ymatebion gwahanol iawn dysgwyr unigol.

Yr hyn a newidiwyd gennym

Newid geiriad y disgrifydd llwybrau Saesneg 'Supported 1:1 turn-taking with adult'

Ystyriwyd y mater hwn fel rhan o'r adolygiad ehangach o'r iaith a ddefnyddiwyd ar y Map Llwybrau. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn gofyn am adborth ar yr argymhellion a wnaed o ganlyniad i'r adolygiad hwn.

Dileu 'Ymateb i'w enw ei hun' ar y Map Llwybrau

Awgrymwyd hyn gan fod profiad wedi dangos nad yw dysgwyr yn cyflawni'r cam hwn yn annibynnol yn ystod y cam cynnar hwn. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn gofyn am adborth er mwyn canfod a ddylid ailgyflwyno 'Ymateb i'w enw ei hun' ar y Map Llwybrau rhwng 'Ymwybyddiaeth o ddibyniaeth' a 'Archwilio'r amgylchedd yn fwriadol'.

Hygyrchedd iaith a cheisiadau am eglurhad pellach

Cyfarfu grŵp bach o ymarferwyr, academyddion a therminolegwyr ym mis Rhagfyr 2019 i ystyried yr iaith a ddefnyddiwyd ar y Mapiau Llwybrau Cymraeg a Saesneg ochr yn ochr. Gwnaed amrywiaeth o argymhellion gan y grŵp ac rydym wrthi ar hyn o bryd yn gofyn am sylwadau ehangach cyn cyflwyno'r newidiadau terfynol i'r Map Llwybrau wedi'i ddiweddarau.

Ceisiadau am wybodaeth ychwanegol

Gofynnodd ymatebwyr hefyd am eglurhad pellach am y gydberthynas rhwng y Map Llwybrau a'r fframweithiau sgiliau trawsgwricwlaidd wedi'u diweddarau ar gyfer llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Ceir esboniad o rôl y Map Llwybrau yn y canllawiau drafft ar gyfer Ar Drywydd Dysgu y gellir cyflwyno adborth arnynt ar hyn o bryd a cheir cyfeiriad pellach at y fframweithiau yn y fersiwn derfynol.

Fformat a chynnwys y clipiau fideo

Roedd yr adborth yn cynnwys yr argymhelliad y dylid cynnwys mwy o enghreifftiau ar gyfer pob blwch ac y dylid cyflwyno clipiau o ddysgwyr o wahanol oeddrannau. Gofynnodd sawl un a fyddai'n bosibl darparu llwyfan a phroses sicrhau ansawdd a fyddai'n galluogi ymarferwyr i lanlwytho clipiau yn barhaus. Rydym yn parhau i chwilio am gliptau fideo ychwanegol er mwyn cynnig enghreifftiau ar gyfer y disgrifyddion llwybrau ar y map a byddwn yn ystyried cyfleoedd yn y dyfodol i gasglu clipiau ar ôl cyhoeddi'r deunyddiau yn yr haf.

Gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y clipiau fideo enghreifftiol

Roedd yr ymatebwyr yn gwerthfawrogi'r ffaith bod mwy nag un clip fesul blwch/carreg filltir ac o'r farn bod hynny'n helpu i gynnig gwell dealltwriaeth o'r disgrifydd llwybr. Cydnabu ymatebwyr hefyd y bydd y canllawiau drafft wedi'u diweddarau a'r llyfryn asesu yn helpu i gefnogi ymarferwyr wrth ddefnyddio'r Map Llwybrau.

Mae'r canllawiau drafft ar gyfer Ar Drywydd Dysgu ar gael ar hyn o bryd er mwyn cyflwyno adborth arnynt ac mae'r llyfryn asesu wrthi'n cael ei ddiweddarau'n barod ar gyfer haf 2020.

Y camau nesaf

Nododd ymatebwyr angen clir am gyfleoedd dysgu proffesiynol er mwyn i ymarferwyr feithrin eu dealltwriaeth o'r Map Llwybrau a'r broses o asesu dysgwyr ag anghenion dysgu dwys a lluosog. Mae hyn yn cynnwys trefniadau gweithio rhwng ysgolion a rhannu arferion da.

Wrth i ni gwblhau'r deunyddiau terfynol erbyn haf 2020, byddwn yn nodi cyfleoedd dysgu proffesiynol y gellir eu darparu. Gellir defnyddio'r fersiynau terfynol o'r canllawiau ar gyfer Ar Drywydd Dysgu, y llyfryn asesu a'r clipiau fideo hefyd i ategu dysgu proffesiynol staff.

Amser, adnoddau a chymorth i roi'r cwricwlwm newydd ar waith yn llwyddiannus

Helpu i'w gyflwyno (astudiaethau achos, deunyddiau, rhwydweithiau)

Yn ystod y cyfnod adborth, cynigiodd amrywiaeth eang o sefydliadau eu cymorth ar lefel genedlaethol ac i ysgolion. Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw hefyd at bwysigrwydd astudiaethau achos ac enghreifftiau o addysgu a dysgu er mwyn helpu athrawon i ddychmygu a deall y cwricwlwm ar waith.

Ar ôl mis Ionawr, byddwn yn gweithio gydag ymarferwyr, rhanbarthau a sefydliadau a rhanddeiliaid i ddechrau datblygu deunyddiau i gefnogi'r broses weithredu. Byddwn yn anelu at dreialu a blaenoriaethu meysydd allweddol yn hyn o beth.

Bydd angen rhwydweithiau proffesiynol fel rhan allweddol o'n dull gweithredu cenedlaethol, er mwyn hwyluso trefniadau cydweithio, rhannu dysgu ac arbenigedd a nodi goblygiadau proffesiynol y diwygiadau. Bydd angen defnyddio'r rhwydweithiau hyn fel cyfrwng o ymgysylltu â'r sector ehangach er mwyn sicrhau bod cymorth ar gael i bob ymarferydd ddatblygu ei sgiliau a'i wybodaeth ymhellach er mwyn gweithredu'r cwricwlwm newydd.

Diwylliant dysgu

Rhannwyd y ddogfen hon yn anffurfiol gyda'r bwriad o weithredu fel canllaw i ysgolion a lleoliadau sy'n amlinellu'r agweddau hynny ar ddatblygiad cwricwlaidd a datblygiad addysgegol sy'n seiliedig ar dystiolaeth y dylid eu hystyried wrth lywio eu diwylliant dysgu ymhellach. Roedd yn adeiladu ar 12 egwyddor addysgegol Dyfodol Llwyddiannus ac yn mabwysiadu ethos y weledigaeth honno ar gyfer llwyddiant Cwricwlwm i Gymru 2022.

Wrth symleiddio'r canllawiau, crynhowyd yr egwyddorion hyn ac fe'u cynhwyswyd yn yr adran 'Cynllunio eich cwricwlwm' gyffredin. Caiff y ddogfen 'Diwylliant dysgu' ei hadolygu gan ystyried hyn, a byddwn yn ystyried a ddylid cyhoeddi'r ddogfen estynedig fel adnodd.

Pwysigrwydd hanfodol dysgu proffesiynol

Nododd yr adborth yn glir bod dysgu proffesiynol yn hanfodol o ran cefnogi'r cwricwlwm newydd.

Lansiwyd y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol¹ yn swyddogol yn 2018. Roedd y dull hwn "a wnaed yng Nghymru" ar gyfer dysgu proffesiynol yn gam allweddol yn y broses ddiwygio. Mae'n cyd-fynd â'r safonau proffesiynol newydd, dull gweithredu a model dysgu proffesiynol Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu, i greu gweledigaeth addas ar gyfer y system addysg sy'n datblygu yng Nghymru i bob ymarferydd addysgol, nid dim ond athrawon. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod pob ymarferydd yn cael y cymorth sydd ei angen arno i gyflwyno ein cwricwlwm gweddnewidiol newydd.

Mae'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol yn seiliedig ar waith ymchwil cenedlaethol a rhyngwladol sylweddol, ac fe'i dyluniwyd er mwyn sicrhau:

- y gall ysgolion, arweinwyr ac athrawon gael gafael ar enghreifftiau o arferion gorau wrth ddiffinio a rhannu dysgu proffesiynol ar lefel ysgolion, yn enwedig drwy ddefnyddio dulliau ymholi beirniadol a dysgu cydweithredol
- bod darparwyr dysgu proffesiynol – y consortia rhanbarthol, ein prifysgolion ac eraill – yn cynllunio profiadau dysgu proffesiynol sydd o ansawdd uchel, yn hygyrch ac yn addas at y diben, er enghraifft drwy ddyluniadau sy'n cynnwys ymholi cydweithredol ac e-ddysgu
- ein bod ni, fel llywodraeth, yn cyllido'r mathau priodol o ddysgu proffesiynol y gwyddom, ar sail tystiolaeth, y byddant yn cael effaith ar arferion mewn ystafelloedd dosbarth.

Wrth wraidd y Dull Cenedlaethol y mae sicrhau bod cyllid digonol ar gael ar ei gyfer, yn cynnwys adnoddau ariannol ac amser i athrawon ac arweinwyr ymgysylltu â chyfluoedd datblygu proffesiynol o ansawdd uchel.

Rydym yn disgwyl i'r ffordd y mae ein hymarferwyr yn meddwl am eu dysgu proffesiynol gael ei thrawsnewid yn llwyr yn sgil cyflwyno'r cwricwlwm newydd ac mae angen i ni roi cymorth i ysgolion er mwyn eu galluogi i wneud y newid sylweddol hwn.

Rydym yn bwriadu rhoi diwrnod HMS ychwanegol i bob ysgol bob blwyddyn ar gyfer y tair blynedd nesaf yn ystod tymor yr haf yn benodol er mwyn rhoi mwy o amser i athrawon ymgymryd â dysgu proffesiynol. Cyflwynir y diwrnod HMS ychwanegol hwn drwy Reoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2019 sy'n mynd drwy'r Cynulliad ar hyn o bryd ac a ddaw i rym ar 1 Medi 2019. Dylid cynnal y diwrnod HMS ychwanegol cyntaf yn ystod tymor yr haf 2020.

Rydym yn cydnabod nad yw un diwrnod HMS ychwanegol yn ddigon ynddo'i hun. Oherwydd hynny, mae'r diwrnod HMS hwn ar gyfer dysgu proffesiynol yn rhan o becyn ehangach sy'n rhan o'n Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol, wedi'i ategu gan fuddsoddiad ychwanegol gwerth £15 miliwn yn 2020-21.

¹ <https://llyw.cymru/y-dull-cenedlaethol-ar-gyfer-dysgu-proffesiynol>

Mae cynorthwyrwyr addysgu yn rhan annatod o'n system addysg, ac ansawdd gweithlu ein hysgolion a wnaiff y gwahaniaeth wrth weddnewid bywydau pobl ifanc. Dros y misoedd diwethaf, ymgynghorwyd ar safonau proffesiynol newydd ar gyfer cynorthwyrwyr addysgu a chyflwynwyd safonau newydd. Mae cydweithio ar ddatblygu Cynorthwyrwyr Addysgu Lefel Uwch (CALU) a Llwybrau Dysgu Cynorthwyrwyr Addysgu yn parhau er mwyn sicrhau bod y llwybr dysgu a statws CALU yn cyd-fynd â'r safonau proffesiynol newydd ac yn unol â'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol.

Mae'r ystod bresennol o ddiwygiadau i'r system addysg yng Nghymru yn cynyddu'r angen i sicrhau bod arweinwyr ysgolion wedi'u paratoi a'u cefnogi'n dda i arwain eu sefydliadau drwy'r newidiadau hyn. Mae *Cenhadaeth ein cenedl* yn rhoi arweinyddiaeth wrth wraidd y diwygiadau ac mae 'Arweinyddiaeth sy'n ysbrydoli' yn amcan galluogi allweddol.

Er mwyn cefnogi'r maes gwaith hwn, sefydlodd Llywodraeth Cymru yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol.

Mae Rhaglen Aelodau Cyswllt yr Academi hefyd wedi cael ei threialu sy'n cefnogi arweinwyr systemau mewn lleoliadau. Mae'r Academi yn ymrwymedig i ddefnyddio arbenigedd arweinwyr presennol a thyfu'r genhedlaeth bresennol a'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr i Gymru drwy wella statws, morâl a balchder mewn bod yn arweinydd yn y system addysg yng Nghymru. Bydd ei dull o ddatblygu arweinyddiaeth yn anelu at rymuso arweinwyr i arwain y system drwy atgyfnerthu gwaith partneriaeth o fewn pob rhan o'r sector a rhwng yr holl rannau hynny.

Mae gan Gymru uchelgais hefyd fod pob ysgol yn datblygu fel sefydliad sy'n dysgu yn unol ag egwyddorion y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD). Mae ysgolion sy'n sefydliadau dysgu yn gallu addasu'n gyflymach a rhoi cynnig ar ddulliau gweithredu newydd, sy'n eu galluogi i wella dysgu a deilliannau i'w holl ddysgwyr.

Rydym yn benderfynol o ddefnyddio strwythur llywodraethu'r rhaglen i fonitro cynnydd o ran y cyfleoedd dysgu proffesiynol sydd ar gael i'n hathrawon a'n harweinwyr, ac er mwyn sicrhau bod ysgolion yn barod i weithredu'r cwricwlwm newydd ar yr adeg briodol. Er mwyn gwneud hyn, rydym yn:

- derbyn adroddiadau bob tymor gan y rhanbarthau ar y niferoedd sy'n manteisio ar eu rhaglen dysgu proffesiynol genedlaethol
- sicrhau bod cynlluniau dysgu proffesiynol ysgolion wedi'u cymeradwyo gan eu Cynghorwyr Herio gan ddefnyddio meini prawf ansawdd heriol
- sicrhau bod ysgolion yn cyhoeddi eu cynlluniau dysgu proffesiynol er mwyn i'r cymunedau a wasanaethir ganddynt ac arbenigwyr yn y maes allu craffu arnynt.

Atebolrwydd

Rhoddwyd rhywfaint o adborth am drefniadau atebolrwydd a fydd yn gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd. Roeddent yn ymwneud yn bennaf â phryderon y gallai trefniadau atebolrwydd, os na fyddant yn briodol, danseilio'r newid diwylliannol sydd ei angen er mwyn helpu i roi'r cwricwlwm newydd ar waith.

Beth rydym wedi'i wneud?

Caiff y trefniadau gwerthuso a gwella eu datblygu er mwyn helpu i weithredu a rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith, ac rydym wedi bod yn datblygu ein dull gweithredu drwy ymgynghori â'r proffesiwn. Gellir gweld y cynigion drafft drwy ddilyn y [ddolen](#) ganlynol.

Gwnaed nifer o newidiadau yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, o ganlyniad i'r adborth a gawsom. Drwy roi'r gorau i gyhoeddi data o asesiadau athrawon ar lefel is-enedlaethol, a rhoi'r gorau i'w defnyddio fel rhan o drefniadau ysgolion i wneud gwelliannau parhaus, llwyddwyd i sicrhau mai dim ond at y diben bwriadedig y cânt eu defnyddio. Bydd y gyfres o ddangosyddion interim a roddwyd ar waith eleni ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 yn helpu i ymdrin â rhai o ganlyniadau anfwriadol mwyaf dybryd mesurau blaenorol, a hynny cyn gynted â phosibl ac, ar yr un pryd, caiff y trefniadau tymor hwy a fydd yn meithrin diwylliant o welliant parhaus a chynaliadwy eu hystyried. Mae diwygiadau a wnaed i'r gofynion pennu targedau yng Nghyfnod Allweddol 4 wedi sicrhau cydnawsedd â'r newidiadau hyn gan symud oddi wrth bwyslais anghymesur ar nifer bach o fesurau perfformiad i amrywiaeth ehangach o ddangosyddion sy'n cyfleu'r profiad dysgu cyfan, cynnydd dysgwyr a'n huchelgeisiau ar gyfer y cwricwlwm newydd yn well, ond yn caniatáu i bob ysgol gael ei hystyried o fewn ei chyd-destun unigol ar yr un pryd. Eleni, cynhaliwyd adolygiad byr o Setiau Data Craidd Cymru Gyfan hefyd er mwyn sicrhau bod eu cynnwys yn gydnaws â newidiadau i'r dangosyddion ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 ac er mwyn sicrhau bod agweddau diwygiedig ar y cynnwys yn fwy cydnaws â'r datblygiadau diweddaraf i bolisiau, o ran y math o ymddygiad rydym yn awyddus i'w hyrwyddo.

Yn ystod y tair blynedd nesaf, byddwn yn ymgymryd â chyfres o weithgareddau er mwyn helpu i ddatblygu'r trefniadau ymhellach, gan gynnwys: comisiynu gwaith ymchwil i'r anghenion tystiolaeth yn y dyfodol i ategu hunanwerthuso a gwelliant parhaus ar bob lefel yn y system ysgolion; treialu dulliau o roi cymorth i ysgolion, ac adnoddau i ategu trefniadau hunanwerthuso o ansawdd uchel sy'n anelu at welliant; gwaith parhaus ym mhob haen i annog defnydd priodol ac effeithiol o wybodaeth a thystiolaeth er mwyn ategu'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm. Wrth i ni ddatblygu'r gwaith hwn, byddwn yn sicrhau ei fod yn ategu'r newid diwylliannol sydd ei angen i helpu i ddiwygio'r system addysg.

Pryderon o ran cyfnodau pontio

Roedd pryderon o ran y cyfnod pontio o addysg gynradd i addysg uwchradd, ac eto wedyn o addysg uwchradd i addysg drydyddol. O ran y canllawiau drafft, teimlwyd y byddai cryn dipyn o amrywiad rhwng ysgolion ac y byddai hyn yn arwain at gontinwmm dysgu toredig. Rydym wedi egluro yn y canllawiau diwygiedig bod gweithio o fewn clystyrau yn hollbwysig a bod angen i ysgolion gydweithio i gynllunio cwricwla i sicrhau cyfnodau pontio didrafferth a chontinwmm dysgu sicr i bob dysgwr.

Dylai'r broses o gynllunio a gweithredu'r cwricwlwm i ysgolion uwchradd hefyd ystyried yr amrywiol lwybrau sydd ar gael i ddysgwyr rhwng 14 ac 16 oed ac ôl-16. Tynnir sylw at hyn yn y canllawiau cyffredin. Mae angen i ysgolion ystyried yr arbenigedd a'r cyfleoedd y mae sefydliadau addysg bellach yn eu cynnig i ddysgwyr wrth gynllunio eu cwricwlwm.

Byddai'r gwaith parhaus i weithredu'r cwricwlwm hefyd yn cynnig y cyfle i lunio astudiaethau achos o drefniadau gweithio mewn clystyrau a'r cyfnodau pontio rhwng lleoliadau nas cynhelir i addysg gynradd, o addysg gynradd i addysg uwchradd ac o addysg uwchradd i addysg drydyddol.